WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

30 Medi 2010
www.wao.gov.uk

# Y Defnydd o Adnoddau mewn Ysgolion Arbennig
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn yn unol â pharagraff 21 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Huw Lloyd Jones a Sue Willan, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Gillian Body**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn cynnal arolygiadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Hi sydd hefyd yn archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac sy'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru.

Mae ganddi hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wnaeth y sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth, y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff eraill a archwilir ac a arolygir ganddi. Ar ben hynny, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud hyn yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfeiriad uchod, ffôn 029 20320500, e-bost: wales@wao.gov.uk neu gweler y wefan http://www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2010

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio. Dylid anfon ymholiadau ar y cyhoeddiad hwn atom at infoofficer@wao.gov.uk

**Er bod ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o'r arian sydd ar gael ar y cyfan, nid yw trefniadau ariannu na threfniadau cymorth llawer o gynghorau yn adlewyrchu'r cyd-destun newydd y mae ysgolion yn gweithredu ynddo**

# Cynnwys


## Crynodeb 5

Argymhellion 10

## 1 Er bod yr arian sydd ar gael i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg yn amrywio'n sylweddol, mae ysgolion arbennig unigol yn gwneud defnydd da o'r arian sydd ar gael iddynt ar y cyfan 11

Mae'r arian sydd ar gael i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg yn amrywio'n sylweddol 11

Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o'r arian a ddarperir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan eu cynghorau 14

Mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o unrhyw arian ychwanegol y gallant ei gael er mwyn gwella profiadau disgyblion 15

## 2 Er gwaethaf yr angen clir i wneud hynny, nid yw llawer o gynghorau yn adlewyrchu'r cyd-destun newydd y mae ysgolion yn gweithredu ynddo yn eu trefniadau ariannu a'u trefniadau cymorth 17

Mae'r newidiadau a welwyd ers 1990 yn y cyd-destun y mae ysgolion arbennig yn gweithredu ynddo yn golygu bod angen adolygu trefniadau cynghorau o ran darparu adnoddau i ysgolion arbennig 17

Er y ceir enghreifftiau o arfer da, bu llawer o gynghorau yn araf i adlewyrchu newidiadau cyd-destunol yn eu dyraniadau cyllidebol a'u fformiwlâu ariannu ar gyfer ysgolion arbennig 20

Mae'r trefniadau ar gyfer dyrannu arian nas dirprwyir i ysgolion arbennig yn anghyson a cheir diffyg tryloywder mewn rhai achosion 23

Bu cynghorau yn araf i gydweithio i wella gwerth am arian darpariaeth fewnol awdurdod 24

Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn fodlon ar argaeledd gwasanaethau cymorth cynghorau, ond mae llawer yn nodi anhawster o ran sicrhau lefelau digonol o gymorth gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion meddygol disgyblion 27

## Atodiadau 30

Atodiad 1 – Nodweddion mathau o anghenion addysgol arbennig 30

Atodiad 2 – Methodoleg Swyddfa Archwilio Cymru 35

# Crynodeb

1 Mae Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'i hadolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig[1] (AAA), yn datblygu canllaw ar arfer da ar reoli gwariant AAA i gynghorau yng Nghymru. I ategu'r gwaith hwn, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad wedi Swyddfa Archwilio Cymru i archwilio'r gwaith o ddarparu adnoddau i ysgolion arbennig[2] a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ac i nodi enghreifftiau o arfer da.

2 Mae ysgolion arbennig yn ffurfio rhan o gontinwwm o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r continwwm hwn yn cynnwys, yn y rhan fwyaf o gynghorau:

a un neu fwy o ysgolion arbennig;

b niferoedd amrywiol o unedau ag adnoddau[3], wedi eu lleoli o fewn ysgolion prif ffrwd; a

c chymorth i ddisgyblion unigol mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

3 Mae gan tua un rhan o bump o ddisgyblion mewn ysgolion AAA ar unrhyw adeg benodol. Mae'r ddarpariaeth addysgol arbennig yn amrywio yn ôl y math o anghenion sydd gan bob disgybl a'u difrifoldeb. Bydd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion ag AAA yn cael darpariaeth a chymorth ychwanegol o fewn ysgol brif ffrwd.

4 Nodir anghenion addysgol arbennig tua 14,000 o ddisgyblion (tri y cant o'r cyfanswm) a'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny mewn datganiad AAA[4]. Addysgir dros ddwy ran o dair o'r disgyblion hyn mewn ysgolion prif ffrwd, ac mae'r gweddill yn mynd i ysgolion arbennig.

5 Yn 2007[5], cyflwynwyd adroddiad gennym ar y defnydd o arian AAA, ac effaith yr arian hwnnw, gan gynghorau ar draws y continwwm cyfan o ddarpariaeth. Daethom i'r casgliad canlynol: 'Nid oes cysylltiad clir rhwng lefel y gwariant a gofnodwyd gan awdurdodau lleol ac ansawdd y ddarpariaeth AAA. Ni all cynghorau ddweud eto p'un a yw eu darpariaeth AAA yn gost effeithiol ond ceir enghreifftiau da o fentrau sydd â'r potensial i wella dealltwriaeth o hyn.'

6 Nododd Cynghorau yng Nghymru gyllidebau AAA gwerth £335.4 miliwn (gan gynnwys grantiau) ar gyfer 2009-10. Roedd hyn yn cynrychioli tua 13.5 y cant o'r gwariant a gyllidebwyd ar addysg. Mae'r astudiaeth bresennol yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol drwy roi ystyriaeth fanylach i'r defnydd o'r gyfran honno o gyllideb gyfan AAA (tua 21 y cant ar gyfartaledd) a ddefnyddir gan gynghorau ar gyfer darpariaeth mewn ysgolion arbennig.

1 Defnyddir y term anghenion addysgol arbennig (AAA) ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt gan fod ganddynt anawsterau dysgu. Mae gan ddisgyblion sydd ag AAA lefelau gallu amrywiol ac mae ganddynt ystod amrywiol o anghenion.

2 Mae ysgolion arbennig yn darparu ar gyfer lleiafrif bach iawn o ddisgyblion y mae eu AAA mor ddifrifol a chymhleth fel na ellir eu diwallu'n effeithiol mewn ysgol brif ffrwd. Trefnir ysgolion arbennig yn benodol er mwyn sicrhau darpariaeth addysgol arbennig i ddisgyblion ag AAA. Caiff y rhan fwyaf o ysgolion arbennig eu cynnal gan awdurdodau lleol, ond mae'r gweddill yn rhai annibynnol neu'n rhai nas cynhelir.

3 Unedau ag adnoddau yw dosbarthiadau mewn ysgolion prif ffrwd lle y darperir adnoddau ar eu cyfer ar lefel uwch na dosbarthiadau eraill fel y gallant ddarparu o bosibl ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

4 Noda Adrannau 323 a 324 o Ran IV o Ddeddf Addysg 1996 yr amgylchiadau lle y gall fod yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer plentyn penodol. Dylai unrhyw ddatganiad o'r fath nodi asesiad yr awdurdod o anghenion addysgol arbennig y plentyn a'r ddarpariaeth angenrheidiol er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

5 Arfer Da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig (Swyddfa Archwilio Cymru, Gorffennaf 2007).

7 Ar hyn o bryd mae cynghorau yng Nghymru yn cynnal 43 o ysgolion arbennig. Mae'r 43 o ysgolion wedi'u lleoli ar draws 21 o'r 22 o gynghorau. Fodd bynnag, dim ond un ysgol arbennig yr un y mae 10 o'r cynghorau hyn yn ei chynnal.

8 Mae ysgolion arbennig yn amrywio mewn maint rhwng 14 o leoedd a 225 o leoedd. Maent hefyd yn amrywio'n fawr o ran y math o ddisgyblion a'r anghenion arbennig[6] y maent yn darparu ar eu cyfer. Mae tua dwy ran o dair yn addysgu disgyblion yn yr ystod oedran 3-19 gyfan. Mae tua 30 y cant yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth breswyl. Dosberthir tua 70 y cant o ysgolion arbennig fel rhai 'generig', hynny yw maent yn darparu ar gyfer amryw o fathau o anghenion arbennig. Mae'r lleill yn darparu ar gyfer mathau penodol o anghenion megis anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Mae i'r amrywiadau hyn oblygiadau sylweddol o ran nifer y staff a'r adnoddau arbenigol sydd eu hangen i gyflawni'r Cwricwlwm Cenedlaethol a darparu lefelau digonol o ofal.

9 Er bod nifer cyfan y disgyblion sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig wedi cynyddu. Yn 2009/10, ariannwyd ysgolion arbennig a gynhelir i ddarparu ar gyfer tua 4,130[7] o ddisgyblion rhwng 3 a 19 oed. Mae'r nifer hwn yn dangos cynnydd o 9 y cant ers 2005-06, o gymharu â gostyngiad o tua 4 y cant mewn niferoedd disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd dros yr un cyfnod. Mae'r niferoedd wedi cynyddu er gwaethaf y duedd ledled Cymru o addysgu disgyblion ag AAA llai difrifol mewn ysgolion prif ffrwd. Felly mae ysgolion arbennig, ar gyfartaledd, yn fwy nag o'r blaen ac yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion fwyfwy amrywiol a chymhleth.

10 Cynyddodd cyfanswm yr arian a ddirprwywyd i'w reoli gan ysgolion arbennig (sef y Gyllideb Ysgolion Unigol) 18 y cant (o £59.4 miliwn i £70.1 miliwn) rhwng 2006-07 a 2009-10. Yn yr un cyfnod, cafwyd cynnydd llawer llai o 11.9 y cant yn y Gyllideb Ysgolion Unigol ar gyfer pob ysgol[8].

11 Yn ogystal â'r arian dirprwyedig hwn o £70 miliwn, amcangyfrifodd cynghorau y byddent yn gwario £30 miliwn ychwanegol nas dirprwywyd yn 2009-10 ar ffurf darpariaeth uniongyrchol mewn ysgolion arbennig. Mae'r swm hwn yn cynnwys y gost i gyllidebau addysg cynghorau o ddarparu ar gyfer disgyblion a addysgir y tu allan i'r awdurdod, p'un ai mewn ysgolion a gynhelir gan y cyngor neu mewn ysgolion annibynnol.

12 Yn 2009-10, roedd arian dirprwyedig ysgolion arbennig tua £17,000 fesul disgybl. Pennir yr arian ar gyfer pob disgybl rhwng 3 a 16 oed mewn ysgolion arbennig gan gynghorau ac fe'i dyrennir drwy fformiwla ariannu pob cyngor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dyrannu arian i gynghorau ar gyfer darpariaeth ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion 16-19 oed, a lywir gan amcangyfrifon a dynnir o fformiwla ariannu ysgolion arbennig pob cyngor.

6 Gellir gosod Anghenion addysgol arbennig mewn pedwar maes cyffredinol sef:

- gwybyddiaeth a dysgu;
- cyfathrebu a rhyngweithio;
- synhwyraidd a/neu gorfforol; ac
- ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol.

Rhown esboniad pellach o brif nodweddion y mathau hyn o feysydd lle mae anghenion yn Atodiad 1

7 Data a gymerwyd o ddatganiadau Adran 52 awdurdodau lleol.

8 Mae'r symiau hyn yn cynnwys grantiau datganoledig penodol.

13 Rhaid i bob cyngor gyhoeddi sail ei fformiwla ariannu ysgolion arbennig yn flynyddol yn ei ddatganiadau Adran 52 (Rhan 2). Mae'r wybodaeth hon yn dangos bod y gost gyfartalog fesul disgybl o le mewn ysgol arbennig a gynhelir yn amrywio yn ôl y math o ddarpariaeth a gynigir, ystod oedran y disgyblion yn yr ysgol a'r mathau o anghenion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer. Mae'r costau'n amrywio o lai na £10,000 fesul disgybl mewn ysgol ar gyfer disgyblion rhwng 11 a 19 oed ag anawsterau dysgu cymedrol i dros £30,000 fesul disgybl mewn ysgol â darpariaeth breswyl i ddisgyblion rhwng 11 a 16 oed ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

14 Awgrymodd ein dadansoddiad rhagarweiniol o ddatganiadau Adran 52 y gallai ysgolion arbennig sy'n cynnig darpariaeth debyg ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg fod yn derbyn lefelau sylweddol wahanol o arian, rhwng awdurdodau a hyd yn oed o fewn yr un awdurdod.

15 Er mwyn ceisio cael gwybod mwy am y gwahaniaethau hyn, buom yn ceisio ateb a dod o hyd i enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â'r cwestiwn: 'A yw ysgolion a chynghorau yn gwneud defnydd da o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion mewn ysgolion arbennig yng Nghymru?'

16 Daethom i'r casgliad er bod ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ar y cyfan, nid yw llawer o gynghorau yn adlewyrchu'r cyd-destun newydd y mae ysgolion arbennig yn gweithredu ynddo yn eu trefniadau ariannu a'u trefniadau cymorth.

## Er bod yr arian sydd ar gael i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg yn amrywio'n sylweddol, mae ysgolion arbennig unigol yn gwneud defnydd da o'r arian sydd ar gael iddynt ar y cyfan

17 Mae cynghorau ledled Cymru yn darparu lefelau amrywiol o arian i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig tebyg ar y cyfan. Gellir priodoli rhywfaint o'r gwahaniaeth hwn mewn arian, ond nid y cyfan, i ffactorau megis p'un a yw'r ysgol yn cynnig darpariaeth breswyl ai peidio.

18 Nid yw cyllidebau dirprwyedig ysgolion arbennig, ym mhob achos, yn ariannu costau'r holl aelodau o staff sy'n gweithio yn yr ysgolion hyn. Mae llawer o gynghorau yn darparu staff ychwanegol, gan dalu eu cyflogau o gyllidebau canolog. Wrth ystyried y costau ychwanegol hyn, cynyddodd yr amrywiaeth yng nghyfanswm y lefelau ariannu rhwng ysgolion a oedd yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg.

19 Yn 2008-09 gwariodd y 15 ysgol arbennig y gwnaethom ymweld â hwy bron 90 y cant o'u cyllidebau dirprwyedig ar gostau staffio, ar gyfartaledd. Mae'r amrywiadau rhwng ysgolion yn deillio'n bennaf o'r gwahaniaethau yn y gymhareb rhwng staff cymorth a disgyblion a/neu raddfeydd cyflog y staff hyn. Mae ysgolion sy'n cael mwy o arian fesul disgybl yn gwario mwy ar gynorthwywyr addysgu nag ysgolion sy'n cael llai o arian. Efallai y gellir cyfiawnhau'r gwahaniaethau mewn lefelau staffio oherwydd natur anghenion disgyblion unigol neu grwpiau. Fodd bynnag, nid yw'n glir a gaiff lefelau staffio eu hadolygu'n ddigon aml i sicrhau bod lefelau staffio mewn ysgolion penodol yn parhau i adlewyrchu anghenion y garfan o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

20 Mae bron pob ysgol arbennig yn derbyn incwm ychwanegol drwy godi arian a derbyn rhoddion. Fel arfer mae'r symiau a godir yn ychwanegol at arian a ddarperir gan y cyngor rhwng £20,000 a £30,000 y flwyddyn. Mae ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac ysgolion mewn lleoliadau gwledig yn ei chael yn anos nag ysgolion eraill i godi incwm ychwanegol. Er ei fod yn sylweddol, mae'r incwm o gyfraniadau gwirfoddol yn fach o gymharu â'r arian a ddarperir gan y cyngor.

21 Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o'r arian sydd ar gael iddynt. Mae dyfarniadau arolygiadau Estyn ynghylch canlyniadau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth ac effeithlonrwydd y defnydd o adnoddau yn gadarnhaol yn y rhan fwyaf o'r ysgolion arbennig a gynhelir. Mae rheolwyr ysgolion yn gweithio'n dda gyda chynghorau i fonitro gwariant yn ofalus ac roedd lefelau'r cronfeydd wrth gefn mewn ysgolion arbennig ar ddiwedd 2008-09 yn ddarbodus ar y cyfan, sef 5.8 y cant ar gyfartaledd.

22 Er y caiff yr arian ei ddefnyddio'n dda ar lefel ysgol, prin oedd yr enghreifftiau o gynghorau a oedd wedi cymharu costau eu darpariaeth ysgolion arbennig eu hunain â chostau cynghorau eraill. Mae dadansoddiad o'r fath yn helpu i sicrhau bod gwariant ar ysgolion arbennig yn werth da am arian yng nghyd-destun cyllideb ehangach cyngor.

## Er gwaethaf yr angen clir i wneud hynny, nid yw llawer o gynghorau yn adlewyrchu'r cyd-destun newydd y mae ysgolion yn gweithredu ynddo yn eu trefniadau ariannu a'u trefniadau cymorth

23 Bu'r canllawiau presennol i gynghorau ar ariannu ysgolion arbennig ar waith ers dros 20 mlynedd. Mae cryn dipyn wedi newid ers y cyhoeddwyd y canllawiau o ran deddfwriaeth, polisi a threfniadaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cyflwyno Ysgolion a Reolir yn Lleol[9], lle mae llywodraethwyr ysgolion yn gyfrifol am ddefnyddio cyllideb ddirprwyedig, a'r gofyniad y dylai disgyblion mewn ysgolion arbennig ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

24 Dros yr un cyfnod, bu cynnydd o ran difrifoldeb a chymhlethdod anghenion disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig. O ganlyniad i effaith gyfunol y newidiadau hyn, nid yw'r sail a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau i ysgolion arbennig mewn llawer o gynghorau yn briodol mwyach. Er y ceir enghreifftiau o arfer da, a amlygir yn yr adroddiad hwn, bu llawer o gynghorau yn araf i adlewyrchu newidiadau cyd-destunol yn eu dyraniadau cyllidebol a'u fformiwlâu ariannu ar gyfer ysgolion arbennig.

25 Mae'r trefniadau ariannu ar gyfer disgyblion 16-19 oed yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer lleoedd cyn-19. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dyrannu arian i gynghorau ar gyfer darpariaeth ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion 16-19 oed, a lywir gan amcangyfrifon cynghorau. O dan y trefniadau hyn, mae cynghorau'n nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen drwy ddatganiad AAA disgybl, ond erys y cyfrifoldeb ariannu gyda Llywodraeth y Cynulliad. Yn dilyn cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y galw, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad ddyraniad cychwynnol o 85 y cant o wariant amcangyfrifedig cynghorau ar gyfer 2010-11.

9 Cyflwynwyd Ysgolion a Reolir yn Lleol o ganlyniad i Ddeddf Diwygio Addysg 1988

26 Mae cynghorau wedi ymdrin â'r gostyngiad hwn mewn ffyrdd gwahanol a chyda chanlyniadau gwahanol ar gyfer ysgolion a disgyblion. Mewn rhai cynghorau, bu'n rhaid i ysgolion ostwng lefelau staffio mewn ymateb uniongyrchol i'r gostyngiad yn y gyllideb, gan beryglu eu gallu i gynnig y ddarpariaeth a nodwyd yn natganiadau AAA disgyblion.

27 Mae'r trefniadau ar gyfer dyrannu grant penodol Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth y Cynulliad i ysgolion arbennig yn anghyson a cheir diffyg tryloywder mewn rhai achosion. I'r gwrthwyneb, bu'r trefniadau ar gyfer dyrannu a defnyddio'r grant penodol ar gyfer 'Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig' yn glir ac yn effeithiol.

28 Mae dosrannu cyllidebau a gedwir yn ganolog i ysgolion arbennig yn Ffurflenni Cyfrif Refeniw cynghorau yn parhau i ddarparu sail annibynadwy ar gyfer cymharu cyfanswm cost y ddarpariaeth ysgolion arbennig ar draws cynghorau yng Nghymru. Nodwyd enghreifftiau o gostau a ddosrannwyd i ysgolion arbennig ond a oedd yn llawer uwch na lefel y gwasanaeth a oedd ar gael iddynt.

29 Yn sgîl ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 cynyddodd nifer y cynghorau sirol a bwrdeistref sirol o 8 i 22 ac, o ganlyniad, ceir amrywiaeth eang rhwng cynghorau o ran nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion arbennig ac o ran y math o anghenion arbennig y maent yn darparu ar eu cyfer. O ganlyniad i'r dosbarthiad anghyson hwn yn y ddarpariaeth, mae pob cyngor i raddau amrywiol yn dibynnu ar allu caffael lleoedd ar gyfer rhai o'r disgyblion y maent yn cynnal datganiadau ar eu cyfer mewn ysgolion y tu hwnt i ffiniau'r cyngor. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth 'y tu allan i'r sir' mewn ysgolion a gynhelir gan gynghorau eraill, ond mae pob cyngor hefyd yn lleoli rhai disgyblion sydd ag anghenion cymhleth iawn mewn ysgolion arbennig annibynnol.

30 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r trefniadau ar gyfer caffael lleoedd ysgolion arbennig a gynhelir mewn cynghorau cyfagos yn gweithio'n dda, er eu bod yn cyflwyno lefel ychwanegol o fiwrocratiaeth. Fodd bynnag, ar y cyfan mae cost lleoliadau y tu allan i'r sir, p'un ai mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion annibynnol, yn uwch na fyddai petai'r ddarpariaeth ar gael yn yr awdurdod 'cartref'. Yn aml cost darpariaeth y tu allan i'r sir, yn enwedig yn y sector annibynnol, sy'n achosi gorwariant yng nghyllidebau AAA cynghorau.

31 Mae nifer fach o gynghorau wedi cymryd camau i leihau eu dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir drwy gyflwyno darpariaeth newydd o fewn eu hardal eu hunain. Fodd bynnag, ar y cyfan, bu cynghorau yn araf i gydweithio i gynllunio darpariaeth ysgolion arbennig ar draws rhanbarthau.

32 Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn fodlon ar argaeledd gwasanaethau cymorth cynghorau, ond mae llawer yn nodi anhawster o ran sicrhau lefelau digonol o gymorth gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion meddygol disgyblion. Mae anawsterau o ran cael cymorth gwasanaethau iechyd yn fwy acíwt ar gyfer disgyblion sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion sydd mewn ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Lleol gwahanol i'r ardal lle maent yn byw. Mae hon yn broblem arbennig i ysgolion arbennig preswyl.

33 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau da o gymorth gwasanaethau iechyd mewn rhai ardaloedd. Mewn ardaloedd eraill, mae ysgolion a chynghorau wedi gwneud trefniadau amgen, er enghraifft, drwy gyflogi eu nyrs neu therapydd lleferydd ac iaith eu hunain.

## Argymhellion

Dylai cynghorau yng Nghymru ac ysgolion arbennig a gynhelir wneud y canlynol:

1 Cael gwybodaeth fanwl a chywir i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys:

- a anghenion disgyblion mewn ysgolion arbennig, o fewn yr awdurdod a'r tu allan iddo;
- b y ddarpariaeth a gânt; a
- c chyfrifo costau llawn y ddarpariaeth ysgolion arbennig, yn cynnwys cost pob gwasanaeth a ddarperir er budd uniongyrchol disgyblion mewn ysgolion arbennig, p'un a godir tâl amdano ar gyllidebau dirprwyedig ysgolion ai peidio.

Dylai cynghorau wneud y canlynol:

2 Defnyddio gwybodaeth gyfredol am anghenion a chostau cymharol i lywio adolygiad sylfaenol o'r arian sydd ar gael i ddisgyblion a osodir mewn ysgolion arbennig o fewn yr awdurdod a'r tu allan iddo.

3 Cydweithio i gaffael lleoedd mewn ysgolion y tu allan i'w ffiniau yn effeithiol, lle y bo angen.

4 Cydweithio'n agos â byrddau iechyd lleol i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth clir a phenodol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd mewn ysgolion arbennig.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad a chynghorau gydweithio i:

5 Sicrhau bod datganiadau Adran 52 a'r ffurflenni Cyfrif Refeniw yn nodi'n gyson gyfrif clir a chywir o'r holl wariant arfaethedig ar ysgolion arbennig, a chymharu'r data hwn â chynghorau eraill.

6 Dwyn ynghyd ddata ar anghenion a darpariaeth gyfredol, a'i ddefnyddio i lywio'r gwaith cynllunio strategol ar gyfer lleoedd mewn ysgolion arbennig ledled Cymru.

7 Defnyddio'r arfer da a amlygwyd yn yr adroddiad hwn i hyrwyddo a chefnogi adolygiadau o drefniadau ariannu ysgolion arbennig, yn cynnwys arian ar gyfer disgyblion ôl-16, er mwyn sicrhau ystod o ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion disgyblion ac yn sicrhau gwerth am arian yn gyson.

8 Meithrin cydweithio rhwng cynghorau a, lle y bo'n briodol, gyflwyno trefniadau rhanbarthol ar gyfer y ddarpariaeth ysgolion arbennig.

9 Hyrwyddo gwell cydweithio rhwng cynghorau a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn darparu lefel gyson o gymorth iechyd i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ledled Cymru.

# Rhan 1 - Er bod yr arian sydd ar gael i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg yn amrywio'n sylweddol, mae ysgolion arbennig unigol yn gwneud defnydd da o'r arian sydd ar gael iddynt ar y cyfan

## Mae'r arian sydd ar gael i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg yn amrywio'n sylweddol

**1.1** Dosrannodd cynghorau ledled Cymru £99.9 miliwn i ysgolion arbennig o fewn eu cyllidebau addysg 2009-10, gan gynnwys grantiau. Mae'r swm hwn yn cynnwys arian a ddirprwywyd ac arian nas dirprwywyd ac mae'n cynrychioli tua 4.8 y cant o'r £2.1 biliwn a gyllidebwyd i gyd ar gyfer gwariant ar ysgolion.

**1.2** Cyfanswm y cyllidebau dirprwyedig ar gyfer ysgolion arbennig oedd £70.1 miliwn yn 2009-10. Fodd bynnag, gwelsom fod ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion sy'n ymddangos yn debyg yn derbyn lefelau gwahanol o arian dirprwyedig gan gynghorau ledled Cymru. Mae ffactorau megis p'un a oes gan yr ysgol ddarpariaeth breswyl yn cyfrif am rywfaint o'r gwahaniaethau hyn, ond nid y cyfan.

**1.3** Yn ogystal â chyllidebau dirprwyedig ysgolion, mae llawer o gynghorau yn darparu staff sy'n gweithio mewn ysgol arbennig ond a delir gan y cyngor o gyllideb AAA ganolog. Nid yw'n bosibl o ddata cyhoeddedig i gael ffigurau cywir ar gyfer cost staff o'r fath ond, yn ystod ein gwaith maes, rydym wedi cael gwybodaeth am nifer o staff a ariennir yn ganolog yn yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy ac wedi ychwanegu amcangyfrif o gostau eu cyflogau at gyllidebau dirprwyedig cyhoeddedig ysgolion. Mae hyn yn darparu sail fwy dibynadwy ar gyfer cymharu lefelau ariannu yn yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy.

**1.4** Mae'r tablau canlynol yn dangos y gwahaniaethau a welwyd o ran y swm cyfartalog o arian a ddarperir gan gynghorau fesul disgybl i ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion tebyg. Mae pob tabl yn dangos dau werth ar gyfer yr arian a ddarperir i bob ysgol:

- **a** gwariant arfaethedig fesul disgybl ar gyfer 2009-10 a nodwyd yn natganiadau cyllideb Adran 52 cynghorau; ac
- **b** amcangyfrif o'r gwariant fesul disgybl yn 2009-10 sy'n cynnwys cost y staff ychwanegol a ddarperir o'r cyllidebau AAA canolog, lle y bo'n briodol.

**1.5** Wrth gyfrifo ein hamcangyfrifon o wariant fesul disgybl, rydym wedi defnyddio nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr mewn gwirionedd ym mis Mawrth 2010 yn hytrach na nifer y disgyblion a nodir yn natganiad adran 52, a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau cyllidebol.

**1.6** Mae tua 70 y cant o ysgolion arbennig yng Nghymru yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu generig. Mae Tabl 1 yn dangos yr amrywiad mewn gwariant cyfartalog fesul disgybl rhwng naw o'r ysgolion hyn y gwnaethom ymweld â hwy.

Mae gan ambell ddisgybl yn yr ysgolion hyn anawsterau dysgu cymedrol, ond mae gan y rhan fwyaf ohonynt anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog a/neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Yn ogystal, mae llawer o'r disgyblion hyn yn ymddwyn mewn ffordd heriol a/neu mae ganddynt anghenion meddygol ac anghenion iechyd difrifol, ac mae angen cymorth unigol arnynt i'w cadw'n iach ac yn ddiogel yn yr ysgol.

**1.7** Y costau uned mewn ysgolion dydd i bob oedran sy'n dangos yr amrywiad mwyaf, gyda'r ysgol sy'n derbyn y swm mwyaf o arian (B) yn derbyn dros ddwywaith y swm fesul disgybl a gaiff yr ysgol sy'n derbyn y swm lleiaf (D).

**1.8** Mae saith ysgol arbennig yng Nghymru sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Dengys Tabl 2 y gwariant cyfartalog fesul disgybl ar gyfer y tair ysgol a gynhwyswyd gennym yn ein gwaith maes. Mae'r ysgolion hyn yn darparu addysg ddydd a phreswyl. Mae gan lawer o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys anawsterau dysgu cymedrol, anawsterau dysgu penodol ac anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**1.9** Gellir rhoi cyfrif am y gwahaniaeth yn y lefel ariannu rhwng y tair ysgol hyn, yn rhannol, oherwydd y cyfrannau gwahanol o

## Tabl 1 - Ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu generig

| Ysgol | Darpariaeth | Cost gyfartalog fesul disgybl yn 2009-10 | |
|---|---|---|---|
| | | Gwariant arfaethedig[10] | Amcangyfrif diwygiedig[11] |
| Ysgol A | 3 i 19 oed, dydd a phreswyl | £18,852 | £18,040 |
| Ysgol B | 3 i 19 oed, dydd | £22,910 | £34,059 |
| Ysgol C | 3 i 19 oed, dydd | £22,092 | £21,463 |
| Ysgol Ch | 3 i 19 oed, dydd a phreswyl | £16,572 | £16,706 |
| Ysgol D | 3 i 19 oed, dydd | £16,382 | £15,815 |
| Ysgol Dd | 3 i 19 oed, dydd | £14,967 | £16,559 |
| Ysgol E | 3 i 11 oed, dydd | £14,261 | £14,261 |
| Ysgol F | 11 i 19 oed, dydd | £11,926 | £12,674 |
| Ysgol Ff | 11 i 19 oed, dydd a phreswyl | £14,169 | £13,968 |

10 Wedi ei gymryd o ddatganiadau Adran 52 sy'n defnyddio niferoedd disgyblion amcangyfrifedig.

11 Gan gynnwys cost amcangyfrifedig unrhyw staff a ariennir yn ganolog, ac yn seiliedig ar niferoedd disgyblion gwirioneddol ym mis Mawrth 2010.

**Tabl 2 - Ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol**

| Ysgol | Darpariaeth | Cost gyfartalog fesul disgybl yn 2009-10 | |
|---|---|---|---|
| | | Gwariant arfaethedig | Amcangyfrif diwygiedig |
| Ysgol G | 5 i 16 oed, 90% dydd a 10% preswyl | £19,930 | £20,484 |
| Ysgol Ng | 11 i 16 oed, 2/3 preswyl, 1/3 dydd | £30,250 | £32,719 |
| Ysgol H | 8 i 16 oed, preswyl yn unig | £28,102 | £35,716 |

ddarpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl ym mhob ysgol.

**1.10** Mae Tabl 3 yn dangos y swm cyfartalog fesul disgybl yn y tair ysgol yng Nghymru sy'n darparu'n bennaf ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

**1.11** Mae Ysgolion I ac L yn darparu ar gyfer disgyblion tebyg, ac mae ganddynt gymysgedd tebyg o ddarpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl. Er gwaethaf y tebygrwydd hwn, mae ysgol L yn derbyn bron i 50 y cant yn fwy o arian fesul disgybl nag ysgol I.

**1.12** Mae'r gwahaniaethau mewn gwariant arfaethedig fesul disgybl yn codi oherwydd gwahaniaethau rhwng cynghorau yn y cyllidebau dirprwyedig a bennant ar gyfer eu hysgolion arbennig. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad, byddwn yn trafod sut mae cynghorau yn pennu ac yn dosbarthu'r arian dirprwyedig ar gyfer ysgolion arbennig. Ymhob math o ysgol arbennig yn ein sampl, mae'r amrywiad rhwng ysgolion o ran ein hamcangyfrif diwygiedig o wariant fesul disgybl yn fwy hyd yn oed na'r amrywiad mewn gwariant arfaethedig.

**1.13** Ceir amrywiad eang rhwng cynghorau o ran eu polisïau ar ariannu lleoedd gwag mewn ysgolion arbennig. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n cydnabod yr angen i ddiogelu cyllidebau ysgolion arbennig rhag ansefydlogrwydd eithafol drwy ddarparu arian ar gyfer ychydig yn fwy o ddisgyblion nag y disgwylir eu cael ar y gofrestr. Fodd bynnag, mae nifer y lleoedd ychwanegol a ariennir yn amrywio'n fawr, o hyd at 10 y cant yn ysgolion B, Dd a H a llai na 3 y cant yn y lleill.

**Tabl 3 - Ysgolion ar gyfer disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig**

| Ysgol | Darpariaeth | Cost gyfartalog fesul disgybl yn 2009-10 | |
|---|---|---|---|
| | | Gwariant arfaethedig | Amcangyfrif diwygiedig |
| Ysgol I | 3 i 19 oed, dydd a phreswyl | £20,057 | £19,248 |
| Ysgol L | 3 i 19 oed, dydd a phreswyl | £24,602 | £28,395 |
| Ysgol Ll | 3 i 11 oed, dydd | £21,648 | £21,648 |

1.14 Mae cynghorau hefyd yn amrywio o ran eu polisïau ar ddarparu arian o gyllidebau canolog ar gyfer lefel uwch o gefnogaeth staffio ar gyfer disgyblion penodol. Yn 2009-10, roedd y costau canolog hyn yn amrywio o ddim mewn chwech o ysgolion i dros £300,000 yn ysgol B ac ysgol L. Roedd y costau staffio a delir yn ganolog yn y saith ysgol sy'n weddill rhwng £30,000 a £60,000. Mae'r ffaith nad yw'n bosibl nodi arian ychwanegol o'r fath o'r data cyllidebol cyhoeddedig yn cyfrannu at yr anawsterau o ran meincnodi costau yn gywir rhwng ysgolion a rhwng cynghorau.

1.15 Yn ogystal â'r arian a ddarperir gan gynghorau, mae bron pob ysgol arbennig yn derbyn incwm neu gyfarpar o ffynonellau gwirfoddol. Gall rhoddion o'r fath ddod o ddigwyddiadau codi arian gan rieni, disgyblion a staff neu gan y gymuned ehangach, yn cynnwys elusennau a busnesau lleol.

1.16 Mae argaeledd arian gwirfoddol yn amrywio'n sylweddol yn ôl y mathau o anghenion arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer a lleoliad yr ysgol. Mae ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu generig yn ei chael yn haws codi arian na'r ysgolion hynny sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Yn gyffredinol, mae ysgolion mewn ardaloedd trefol yn derbyn mwy o gefnogaeth gan y gymuned leol nag ysgolion mewn lleoliadau mwy gwledig. Nododd pob ysgol fod lefel gyffredinol y rhoddion gwirfoddol wedi gostwng yn sgîl y dirwasgiad economaidd.

1.17 Nododd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn ein sampl eu bod yn derbyn rhwng £20,000 a £30,000 y flwyddyn, y codwyd y rhan fwyaf o'r arian gan staff a rhieni drwy grwpiau elusennol 'Cyfeillion'. Fodd bynnag, roedd tair ysgol wedi derbyn rhoddion gwerth ymhell dros £100,000. Mewn ychydig enghreifftiau, roedd rheolwyr busnes ysgolion rhagweithiol iawn wedi gallu cael arian ychwanegol sylweddol, er enghraifft, drwy wneud cais i'r cyngor am grant penodol i wella'r maes parcio. Ar y cyfan, mae'r arian a godir drwy weithgarwch gwirfoddol yn sylweddol, ond yn fach o gymharu â'r arian a ddarperir gan y cyngor.

## Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o'r arian a ddarperir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan eu cynghorau

1.18 Mae arolygiadau Estyn yn nodi bod ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o'u cyllidebau dirprwyedig, a ategir gan unrhyw adnoddau ychwanegol a ddarperir gan eu cyngor. Dengys yr arolygiadau hyn fod safonau cyrhaeddiad disgyblion yn dda neu'n rhagorol ymhob un o'r ysgolion arbennig a gynhelir fwy neu lai. Mae dyfarniadau o ran ansawdd y ddarpariaeth ac effeithlonrwydd y defnydd o adnoddau yr un mor gadarnhaol. Ar y cyfan, nid yw canlyniadau arolygon yn dangos unrhyw dystiolaeth o gysylltiad rhwng canlyniadau ar gyfer disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a lefel gyffredinol yr arian sydd ar gael.

1.19 Er mai'r cyngor sy'n pennu'r lefel gyffredinol o arian ar gyfer pob ysgol, corff llywodraethu'r ysgol sy'n penderfynu sut i wario'r gyllideb er mwyn diwallu anghenion disgyblion a rhedeg yr ysgol. Yn y pendraw, llywodraethwyr, gan weithio'n agos â phenaethiaid, sy'n gyfrifol am bennu gofynion staffio, strwythur rheoli, gwariant ar adeiladau ac adnoddau dysgu a blaenoriaethau datblygu eu hysgolion. Yn 2008-09 gwariodd yr ysgolion arbennig yn ein sampl 88.5 y cant o'u cyllidebau dirprwyedig ar gostau staffio, ar gyfartaledd.

**1.20** Lle ceir amrywiad rhwng ysgolion o ran y cyfanswm a wariwyd ar staffio, mae fel arfer yn deillio o wahaniaethau yn y gymhareb rhwng staff cymorth a disgyblion, a/neu oherwydd y graddfeydd cyflog ar gyfer y staff hyn.  Er enghraifft, mae ysgolion sy'n derbyn mwy o arian yn cyflogi mwy o gynorthwywyr addysgu ar raddfa gyflog uwch, tra bod ysgolion sy'n derbyn llai o arian yn dueddol o gyflogi llai o gynorthwywyr addysgu a/neu'n cynnig swyddi ar raddfeydd cyflog is. Efallai y gellir cyfiawnhau'r gwahaniaethau mewn lefelau staffio rhwng ysgolion cymharol debyg oherwydd natur anghenion disgyblion unigol neu grwpiau. Yn yr un modd, gall amrywiadau o ran y strwythur cyflog fod yn briodol, yn dibynnu ar gyfrifoldebau staff. Fodd bynnag, nid yw ysgolion na staff awdurdodau lleol yn adolygu lefelau staffio yn ddigon cyson i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion y garfan o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar y pryd.

**1.21** Mae gan bob ysgol arbennig yn ein sampl gwaith maes o 13 yr un math o strwythur uwch reoli, yn cynnwys pennaeth nad yw'n addysgu a dirprwy bennaeth. Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn bennaeth cynorthwyol hefyd, sydd fel arfer yn gyfrifol am y ddarpariaeth allgymorth[12]. Mae'r strwythur hwn yn gymesur ag anghenion ac amgylchiadau'r ysgol, ar y cyfan, ac mae'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

**1.22** Mae'r penaethiaid a'r cyrff llywodraethu yn monitro gwariant eu hysgol yn ofalus yn erbyn y gyllideb. Yn y rhan fwyaf o gynghorau, ceir cydberthynas waith adeiladol rhwng ysgolion arbennig a swyddogion cyllid y cyngor sy'n helpu ysgolion i gadw o fewn eu cyllideb. Lle bo swydd o'r fath yn bodoli, mae rheolwyr busnes ysgolion yn gwneud cyfraniad cryf i drefniadau rheoli ariannol cyffredinol yr ysgol.

**1.23** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2008-09, roedd ysgolion arbennig yn cadw 5.8 y cant o ddyraniad eu cyllideb ddirprwyedig am y flwyddyn wrth gefn, ar gyfartaledd. Fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol rhwng cynghorau, gan amrywio o orwariant o wyth y cant o'r gyllideb i danwariant o 18.4 y cant. Nododd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn ein sampl eu bod yn bwriadu defnyddio'u cronfeydd wrth gefn i dalu costau hanfodol dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

**1.24** Er bod ysgolion a chynghorau'n cydweithio'n dda ar y cyfan i fonitro gwariant yn erbyn y gyllideb, dim ond ychydig o enghreifftiau yn unig a nodwyd gennym (gweler Astudiaethau Achos 5 a 6) o gynghorau a oedd yn dadansoddi costau ac yn eu cymharu â chostau cynghorau eraill. Mae dadansoddiad o'r fath yn angenrheidiol i sicrhau, hyd yn oed lle bo'r trefniadau rheoli ariannol o fewn yr ysgol yn gadarn, fod y gwariant yn werth da am arian yng nghyd-destun cyllideb ehangach y cyngor.

## Mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o unrhyw arian ychwanegol y gallant ei gael er mwyn gwella profiadau disgyblion

**1.25** Mae ysgolion arbennig yn gwneud defnydd da o unrhyw arian neu gyfarpar ychwanegol a dderbynnir ganddynt o ffynonellau gwirfoddol i ddarparu cyfarpar a gweithgareddau ychwanegol ar gyfer disgyblion. Fel arfer, mae ysgolion yn defnyddio'r arian a godir i ariannu ymweliadau a gwyliau i ddisgyblion, digwyddiadau Nadoligaidd a phartïon. Mae'r enghreifftiau eraill yn cynnwys defnyddio arian i wella'r ardal chwarae awyr agored, adeiladu

12 'Darpariaeth allgymorth' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwaith a wneir gan lawer o ysgolion arbennig i gefnogi gwaith ysgolion prif ffrwd, er enghraifft, drwy helpu i hyfforddi staff i ddarparu'n fwy effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig mwy cymhleth.

gardd synhwyraidd a phrynu cyfarpar adlamu. Roedd un ysgol wedi derbyn rhodd sylweddol o gyfarpar clyweledol gan fusnes lleol ac mae llawer o ysgolion arbennig yn defnyddio bysiau mini a roddwyd gan elusennau lleol neu genedlaethol yn wreiddiol.

**1.26** Mae ysgolion a fu'n arbennig o lwyddiannus o ran codi arian wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'u cynghorau, rhieni a'r gymuned ehangach (Astudiaeth Achos 1). Mae'r ysgolion hyn wedi ariannu prosiectau mawr yn llwyddiannus, yn cynnwys adeiladau newydd a phyllau hydrotherapi sydd o fudd mawr i ddisgyblion.

## Astudiaeth Achos 1 - Ysgol Crug Glas a Chyngor Dinas a Sir Abertawe[13]

**Gweithio mewn partneriaeth i godi arian ychwanegol a'i ddefnyddio i wella cyfleusterau mewn ysgol arbennig**

Mae gan Ysgol Crug Glas, a gefnogir gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, hanes da o godi arian yn llwyddiannus i dalu am welliannau sylweddol i'w hadeiladau a'i chyfleusterau arbenigol.

Ariannwyd y pwll hydrotherapi yn rhannol gan y Cyngor, yn dilyn ymgyrch codi arian helaeth gan rieni a chyfeillion yr ysgol. Bu'r pwll o fudd mawr i ddisgyblion Ysgol Crug Glas ers ei gwblhau dros 20 mlynedd yn ôl. Caiff ei ddefnyddio hefyd gan aelodau'r gymuned ehangach, yn cynnwys disgyblion mewn chwe ysgol arall, Clwb Nofio Strôc Abertawe, pobl anabl unigol a'u teuluoedd, y Babanod Dŵr - grŵp hydrotherapi cyn ysgol - a'r tîm ffisiotherapi pediatrig cymunedol a'i gleientiaid.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Crug Glas a'r Cyngor i godi arian i dalu am welliannau sylweddol i ystafelloedd newid a mannau aros y pwll. Nod y prosiect, sef 'Newid er Gwell', yw darparu ystafelloedd newid ychwanegol mwy o faint, teclynnau codi a osodir ar y nenfwd, mannau penodol i storio cadeiriau olwyn, mynedfa gyhoeddus ar wahân o'r ysgol a chyfleusterau mwy deniadol a modern ar gyfer pob defnyddiwr. Mae tîm y prosiect eisoes wedi codi dros £70,000 tuag at y targed o £450,000, a'r nod yw dechrau ar y gwelliannau yn 2012.

Codwyd yr arian ar gyfer adeilad newydd yn yr ysgol, a agorwyd yn 2003, gan Gyfeillion Ysgol Crug Glas, gan weithio mewn partneriaeth agos â'r Cyngor.  Codwyd tua 60 y cant o'r cyfanswm yr oedd ei angen (£420,000), a darparwyd y gweddill (£330,000) gan y Cyngor. Mae'r adeilad newydd yn cynnwys tair ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion hŷn, ystafelloedd nyrsio a meddygol, ystafell gelf arbenigol, ystafelloedd therapi, ystafell rieni, ystafell staff a chyfleuster hyfforddiant. Enillodd yr adeilad wobr dylunio ar gyfer ei hygyrchedd i bobl anabl.

13 Mae'r astudiaeth achos hon ac eraill a geir yn yr adroddiad hwn ar gael ar Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (http://www.wao.gov.uk/goodpracticeexchange.asp), ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaeth.

# Rhan 2 - Er gwaethaf yr angen clir i wneud hynny, nid yw llawer o gynghorau yn adlewyrchu'r cyd-destun newydd y mae ysgolion yn gweithredu ynddo yn eu trefniadau ariannu a'u trefniadau cymorth

## Mae'r newidiadau a welwyd ers 1990 yn y cyd-destun y mae ysgolion arbennig yn gweithredu ynddo yn golygu bod angen adolygu trefniadau cynghorau o ran darparu adnoddau i ysgolion arbennig

**2.1** Ym 1990, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig Gylchlythyr 58/90, sef Staffio i Ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae Cylchlythyr 58/90 yn rhoi cyngor ar nifer yr athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion disgyblion â mathau amrywiol o AAA. Mae'r canllawiau'n disgrifio pum 'band' o angen, gan ddyrannu lefelau gwahanol o adnoddau staff i bob band. Ers hynny gelwir y model hwn yn 'system fandio'.

**2.2** Dros yr 20 mlynedd diwethaf, bu nifer o newidiadau o ran deddfwriaeth, polisi a threfniadaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi newid y cyd-destun y mae cynghorau ac ysgolion arbennig yn gweithio ynddo. Ar yr un pryd, mae cynghorau a'u hysgolion arbennig wedi gweld cynnydd yn nifrifoldeb a chymhlethdod anghenion arbennig eu disgyblion. O ganlyniad i effaith gyfunol y newidiadau hyn, nid yw'r sail a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau i ysgolion arbennig a gynhelir mewn llawer o gynghorau bellach yn briodol o dan yr amgylchiadau presennol.

**2.3** Mae'r newidiadau deddfwriaethol yn cynnwys dyletswyddau a gofynion ar ysgolion a chynghorau mewn perthynas â:

- **a** Ysgolion a Reolir yn Lleol;
- **b** y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cynnwys addysgu Cymraeg;
- **c** darparu gwasanaethau dwyieithog;
- **ch** diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed; a
- **d** mwy o hawl i gymorth ar gyfer disgyblion ag AAA ac anableddau.

**2.4** Arweiniodd y trefniadau ar gyfer Ysgolion a Reolir yn Lleol (LMS), a gyflwynwyd yn fuan ar ôl cyhoeddi Cylchlythyr 58/90, at newid yn y gydberthynas rhwng ysgolion a'u cynghorau, gan ei gwneud yn fwy cymhleth yn achos ysgolion arbennig. O dan drefniadau Ysgolion a Reolir yn Lleol, y cyngor sy'n pennu cyfran y gyllideb ar gyfer ysgolion arbennig a'r fformiwla ar gyfer ei dosbarthu, tra bod y corff llywodraethu ym mhob ysgol yn penderfynu ar gynlluniau gwariant yr ysgol ac ef sy'n bennaf cyfrifol am benderfynu ar drefniadaeth, staffio a rheolaeth yr ysgol honno. Fodd bynnag, mae gan y cyngor ddyletswydd i sicrhau y diwellir anghenion

AAA disgyblion ac felly, yn ymarferol, y cyngor sy'n penderfynu pa ddisgyblion i'w gosod yn ei ysgolion arbennig.

**2.5** Mae'r gydberthynas hon yn golygu bod angen i gynghorau ac ysgolion arbennig gydweithio'n agos iawn i sicrhau bod y ddarpariaeth a'r adnoddau'n briodol ar gyfer anghenion disgyblion, a'u bod yn parhau i fod yn briodol wrth i'r disgyblion adael pob ysgol ac wrth i ddisgyblion newydd gyrraedd.

**2.6** Yn ogystal, dros yr 20 mlynedd diwethaf, gwelwyd datblygiadau sylweddol yn y cwricwlwm ym mhob ysgol yng Nghymru, yn cynnwys ysgolion arbennig a gynhelir. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynnwys newidiadau olynol i gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol, ynghyd â hawl gan bob disgybl i gael mynediad llawn iddo, yn cynnwys addysg ddwyieithog ac addysg Gymraeg. Yn fwy diweddar, mae ysgolion arbennig wedi dechrau cynnig cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a/neu lwybrau dysgu 14-19, fel y bo'n briodol, i'w disgyblion. Mae'r newidiadau hyn wedi esgor ar anghenion sylweddol o ran hyfforddi a datblygu i staff mewn ysgolion arbennig ac maent wedi cynyddu'r angen am waith cynllunio ac asesu unigol manwl. Mae i'r newidiadau hyn hefyd oblygiadau o ran y ffordd y caiff disgyblion eu dosbarthu gyda'i gilydd ar gyfer gwersi.

**2.7** Mae'r datblygiadau ym maes deddfwriaeth, polisi ac arfer o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed wedi'i gwneud yn ofynnol i ysgolion arbennig ddarparu cymorth unigol i fwy o ddisgyblion a mwy o hyfforddiant i staff, er enghraifft o ran codi a chario, ymyrraeth gorfforol, cymorth cyntaf a gweithdrefnau amddiffyn plant.

**2.8** Mae'r newidiadau olynol i ddeddfwriaeth a pholisïau AAA ac anabledd wedi atgyfnerthu hawliau plant, pobl ifanc a rhieni i gefnogaeth a darpariaeth briodol, mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig fel ei gilydd. Mae'r newidiadau hyn wedi dylanwadu ar rolau staff mewn ysgolion arbennig drachefn, gan gynyddu cyfrifoldebau athrawon yn sylweddol y tu hwnt i addysg uniongyrchol yn unig.

**2.9** Mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth gyfredol[14] a'r canllawiau[15], presennol, mae cynghorau wedi cynnig mwy o ddarpariaeth mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion ag AAA, yn cynnwys llawer o ddisgyblion y byddai eu hanghenion wedi'u diwallu'n flaenorol mewn ysgol arbennig. Ar yr un pryd, mae cynghorau wedi gweld cynnydd yn y galw am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth iawn, a'r disgyblion hyn sydd bellach yn llenwi'r rhan fwyaf o'r lleoedd mewn ysgolion arbennig, naill ai yn y rheini a gynhelir gan gyngor neu yn y sector annibynnol.

**2.10** Mae ysgolion arbennig, yn enwedig y rheini sy'n darparu ar gyfer anawsterau dysgu 'generig', yn nodi cynnydd graddol yn y galw am leoedd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Yn aml mae gan y disgyblion hyn anghenion meddygol neu ymddygiadol ychwanegol, ac mae angen lefel uchel o gymorth personol arnynt i'w helpu i ddysgu ac i'w cadw'n ddiogel yn yr ysgol.

**2.11** Mae ysgolion arbennig ar gyfer anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn gweld bod eu disgyblion yn dod o gefndiroedd cymhleth iawn, yn cynnwys llawer sy'n blant sy'n derbyn gofal[16]. Mae gan fwy o'r disgyblion hyn anghenion dysgu ychwanegol, megis dyslecsia, dyspracsia ac anawsterau lleferydd ac iaith.

14 Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd, 2001

15 Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, 2002

16 Mae plant sy'n derbyn gofal yn destun gorchmynion gofal neu wedi'u cynnwys o dan delerau Deddf Plant 1989.

2.12 Gyda'i gilydd, mae i'r tueddiadau hyn oblygiadau sylweddol o ran y ffordd y mae cynghorau yn cynllunio'r ddarpariaeth ac yn pennu'r gyllideb ar gyfer pob disgybl ag AAA, ac yn enwedig ar gyfer y sawl sydd mewn ysgolion arbennig. Fodd bynnag, er bod cynghorau yn ymwybodol o'r tueddiadau hyn, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi mynd i'r afael â'r heriau a wynebir ganddynt eto.

### Astudiaeth Achos 2 - Cyngor Sir y Fflint

**Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant a darparu gwell gwerth am arian drwy foderneiddio ysgolion arbennig**

Drwy ei drefniadau cynllunio strategol a rheoli prosiect mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion arbennig, mae Cyngor Sir y Fflint wedi:

**a** darparu cyfleusterau a chyfleoedd dysgu rhagorol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth;

**b** cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ddysgu ochr yn ochr â'u cymheiriaid prif ffrwd;

**c** galluogi staff a disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd i weithio'n agosach â staff ysgolion arbennig; a

**ch** gwella gwerth am arian ei ddarpariaeth addysg arbennig.

Ym mis Medi 2009, caeodd Cyngor Sir y Fflint ei dair ysgol arbennig ar gyfer disgyblion o bob oedran ag anghenion dysgu cymedrol, difrifol a dwys/cymhleth, ac yn eu lle agorwyd dwy ysgol arbennig newydd, un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd, wedi eu lleoli'n agos i'w gilydd yn y Fflint.

Mae'r ysgol gynradd arbennig newydd, Ysgol Pen Coch, yn rhannu safle ac ardal fynedfa ag ysgol gynradd prif ffrwd sefydledig, tra bod Ysgol Maes Hyfryd, sef yr ysgol uwchradd arbennig newydd, drws nesaf i ysgol uwchradd sefydledig.

Defnyddiodd y Cyngor y Grant Gwella Adeiladau Ysgolion i ariannu ei raglen moderneiddio ysgolion arbennig. Rheolwyd y prosiect yn dda ac fe'i cwblhawyd ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae swyddogion, penaethiaid a staff ar ben eu digon gydag adeiladau ac adnoddau'r ysgolion newydd, ac maent o'r farn bod y prosiect wedi sicrhau gwerth am arian ardderchog.

2.13 Mae rhai cynghorau, yn cynnwys Cyngor Sir y Fflint (Astudiaeth Achos 2) a Chyngor Bro Morgannwg (Astudiaeth Achos 3), wedi ystyried dyfodol eu hysgolion arbennig fel rhan o'u trefniadau cynllunio strategol cyffredinol ar gyfer gwella ysgolion. Yn Sir y Flint, mae trefniadau cynllunio a rheoli prosiect effeithiol dros y pum mlynedd diwethaf eisoes wedi sicrhau gwell darpariaeth addysg arbennig a gwell gwerth am arian. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu gwella'i ysgolion arbennig fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion gyffredinol yn yr awdurdod.

### Astudiaeth Achos 3 - Cyngor Bro Morgannwg

**Cynllunio i wella ysgolion arbennig fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion ehangach**

Fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion, mae Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu adeiladu ysgol arbennig newydd ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig a/neu anawsterau difrifol a dwys. Mae'r Cyngor yn bwriadu adeiladu'r ysgol newydd ar yr un safle ag ysgol uwchradd prif ffrwd newydd ac, ymhen amser, bydd yn disodli'r tair ysgol arbennig bresennol. Drwy wneud hyn, nod y Cyngor yw gwella cyflwr ei ysgolion arbennig, a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ag AAA gael eu cynnwys mewn dysgu prif ffrwd. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried ffyrdd o ddefnyddio'r adeilad newydd i gynnig mwy o gymorth aml-asiantaeth, addysg breswyl a gofal seibiant i blant anabl a'u teuluoedd, yn unol â'u hanghenion.

## Er y ceir enghreifftiau o arfer da, bu llawer o gynghorau yn araf i adlewyrchu newidiadau cyd-destunol yn eu dyraniadau cyllidebol a'u fformiwlâu ariannu ar gyfer ysgolion arbennig

**2.14** Mae pob cyngor yn pennu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer ei ysgolion arbennig, yn unol â'i flaenoriaethau cyffredinol a threfniadaeth y ddarpariaeth addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig. Yna caiff y gyllideb hon ei dosbarthu i'r ysgolion arbennig yn unol â fformiwla ariannu'r cyngor.

**2.15** Mewn tua dwy ran o dair o gynghorau, nid yw dyraniadau cyllidebol na fformiwlâu ariannu'r ysgolion arbennig wedi bod yn destun adolygiad sylfaenol dros y pum mlynedd diwethaf. Nododd sawl cyngor iddynt bennu cyllidebau a fformiwlâu ariannu eu hysgolion arbennig am y tro cyntaf yn y 1990au, ac nid ydynt wedi gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol ers hynny. O ganlyniad, nid oes gan y cynghorau hyn unrhyw sicrwydd bod eu trefniadau'n briodol ar gyfer yr amgylchiadau presennol na ph'un a ydynt yn cynnig gwerth da am arian.

**2.16** Yn y rhan fwyaf o gynghorau, mae'r fformiwla ariannu'n defnyddio cyfuniad o ffactorau sef:

- **a** nifer y lleoedd, a bwysolwyd yn unol â lefel anghenion disgyblion;
- **b** nifer y disgyblion; a
- **c** ffactorau sy'n benodol i'r ysgol a/neu'r safle, yn cynnwys arian ar gyfer darpariaeth breswyl lle y bo'n berthnasol.

**2.17** Mae llawer o gynghorau'n pennu'r arian ar gyfer lleoedd a bwysolwyd drwy ddefnyddio system fandio sy'n deillio o'r canllawiau yng Nghylchlythyr 58/90. Mae sawl cyngor wedi addasu hyn dros amser, er enghraifft drwy ychwanegu, dileu neu ailddynodi bandiau. Fodd bynnag, mae'r gwerth uned a ddynodwyd ar gyfer pob band yn wahanol mewn gwahanol gynghorau, yn bennaf oherwydd caiff y gwerthoedd hyn eu pennu gan gyfanswm cyllideb ysgolion arbennig pob cyngor, yn hytrach na gan ddadansoddiad manwl o anghenion. Mae'r gwahaniaethau rhwng ysgolion arbennig o ran lefel yr arian sydd ar gael fel y dangosir yn nhablau 1, 2 a 3 yn deillio'n bennaf o'r gwahaniaethau rhwng cynghorau o ran cyfanswm dyraniad y gyllideb ar gyfer ysgolion arbennig, yn hytrach na gwahaniaethau yn y fformiwla ariannu.

**2.18** Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn ein sampl, darparodd y cyngor arian ychwanegol yn rheolaidd i gefnogi disgyblion unigol nad oedd yn bosibl diwallu eu hanghenion o fewn cyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Mae hon yn strategaeth effeithiol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion unigol, fel y diffiniwyd yn eu datganiadau AAA. Mae ariannu rhai o'r staff cymorth o gronfeydd canolog hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i gynghorau allu adleoli staff o'r fath i ysgolion eraill pe bai'r lefel o angen mewn ysgol arbennig yn gostwng. Fodd bynnag, mae dyrannu cyllid ychwanegol nas cynlluniwyd yn ei gwneud yn anos i gynghorau reoli eu cyllidebau AAA canolog[17].

**2.19** Mae'r trefniadau ar gyfer ariannu lleoedd ôl-16 mewn ysgolion arbennig yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer ariannu lleoedd cyn-16. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dyrannu arian i gynghorau ar gyfer darpariaeth ysgolion arbennig 16-19, a lywir gan amcangyfrifon a dynnir o fformiwla ariannu ysgolion arbennig pob cyngor.

17 Arfer Da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig : Swyddfa Archwilio Cymru, Gorffennaf 2007.

2.20 O dan y trefniadau hyn, mae cynghorau'n nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen drwy ddatganiad y person ifanc, ond erys y cyfrifoldeb ariannu gyda Llywodraeth y Cynulliad. Mae gwahanu cyfrifoldebau wedi cyflwyno cymhelliant gwyrdroedig i gynghorau bennu'r angen am ddarpariaeth fwy costus na allai fod ei hangen pe byddent hwy hefyd yn gyfrifol am dalu'r gost honno.

2.21 Nid yw'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y galw am arian ar gyfer ysgolion arbennig ôl-16 gan gynghorau yn gynaliadwy. Felly ym mis Chwefror 2009 penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad gyfyngu'r arian ar gyfer disgyblion ôl-16 mewn ysgolion arbennig i lefel sy'n is na'r gwariant amcangyfrifedig yn 2009-10 a 2010-11. Wedi hynny penderfynwyd darparu cyllid llawn ar gyfer 2009-10, a gwneud dyraniad cychwynnol o 85 y cant o'r gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2010-11.

2.22 Er mwyn rheoli'r lleihad hwn yn yr arian disgwyliedig, mae cynghorau wedi mabwysiadu amryw o strategaethau sy'n cynnwys:

a trosglwyddo'r lleihad llawn i ysgolion arbennig, gan adael i'r cyrff llywodraethu ail-flaenoriaethu gwariant;

b rhannu'r lleihad rhwng yr ysgolion gan felly ddiogelu'r ysgolion arbennig rhag colledion incwm sylweddol;

c cynllunio i leihau'r gwariant y tu allan i'r sir a chadw cyllidebau ysgolion arbennig; a

ch chynllunio i ail-flaenoriaethu gwariant o fewn y cyngor cyfan a chynnal cyllidebau ysgolion arbennig.

2.23 Mae'r strategaethau hyn yn esgor ar ganlyniadau gwahanol iawn ar gyfer ysgolion, disgyblion a chynghorau. Lle bod ysgolion wedi trosglwyddo'r lleihad i ysgolion, roedd penaethiaid yn bwriadu gwneud arbedion ar unwaith drwy leihau nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut y byddai'r cyngor yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol tuag at ddisgyblion ôl-16 a oedd â datganiad AAA o dan yr amgylchiadau hyn.

2.24 Ceir enghreifftiau o arfer da (Astudiaethau Achos 4-6) o ran adolygu trefniadau ar gyfer ariannu ysgolion arbennig. Mae pedwar o cyngor wedi adolygu eu trefniadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae tri chyngor arall wrthi'n gwneud hynny.

2.25 Prin iawn yw nifer y cynghorau sydd wedi llwyddo i gymharu gwerth am arian eu darpariaeth ysgolion arbennig â'r ddarpariaeth mewn cynghorau eraill, er bod llawer wedi ceisio gwneud hynny. Nodwyd nifer o ffactorau sy'n tanategu'r anhawster hwn a nodwyd yn ein hadroddiad cynharach[18] yn yr astudiaeth hon hefyd, yn cynnwys:

a diffyg argaeledd data canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA; ac

b anghysondebau a diffyg manylion wrth nodi gwariant arfaethedig ar AAA mewn datganiadau Adran 52 a ffurflenni cyfrif refeniw

2.26 Er gwaethaf yr anawsterau hyn, nodwyd bod dau gyngor (Astudiaethau Achos 5 a 6) a oedd wedi llwyddo'n ddiweddar i gymharu eu gwariant ar ysgolion arbennig â gwariant o'r fath mewn awdurdodau tebyg.

18 Arfer Da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig : Swyddfa Archwilio Cymru, Gorffennaf 2007.

## Astudiaeth Achos 4 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

### Adolygiad sylfaenol o'r fformiwla ariannu ysgolion arbennig i ddiwallu anghenion disgyblion

Ers nifer o flynyddoedd mae swyddogion yng Nghaerffili wedi gweithio'n agos iawn â Chorff Llywodraethu, Uwch Dîm Rheoli a staff Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields i gynnal adolygiad sylfaenol o'r sail a ddefnyddir i bennu cyllideb yr ysgol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi diwygio model ariannu'r ysgol yn sylweddol. Mae'r fformiwla newydd yn seiliedig ar wybodaeth glir a chywir am anghenion pob disgybl ac anghenion yr ysgol gyfan. Mae'r Cyngor a'r ysgol o'r farn bod y fformiwla newydd llawer yn decach, yn fwy tryloyw ac yn fwy priodol i anghenion disgyblion na'r trefniadau blaenorol.

Mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol Trinity Fields yn cynnwys elfennau ar gyfer:

**a** staffio sylfaenol o fewn pob grŵp (ariannu a arweinir gan ddisgyblion): un athro, un cynorthwywr addysgu (CA3) ac un cynorthwywr addysgu (CA1) ar gyfer pob wyth o ddisgyblion;

**b** arian ychwanegol ar gyfer pob disgybl (ariannu a arweinir gan leoedd): a ddyrennir yn unol ag asesiad blynyddol manwl o lefel anghenion gwirioneddol pob disgybl; a

**c** chostau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, yn cynnwys costau cynnal a chadw adeiladau a chytundebau lefel gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn dyrannu'r elfen o'r gyllideb a arweinir gan leoedd yn unol â system pum band a gynlluniwyd i ddarparu lefel raddoledig o arian ychwanegol yn unol ag anghenion pob disgybl. Pennir nifer y disgyblion ym mhob band yn flynyddol drwy gyfeirio at fatrics asesu disgyblion arbennig, a ategir gan asesiad o anghenion ymddygiadol ac asesiad risg ar gyfer ymdrin â disgyblion. Caiff y matrics hwn ei ddiweddaru drwy'r prosesau asesu arferol yn yr ysgol, a'r system adolygu flynyddol. Mae gan yr ysgol ddisgresiwn o ran y ffordd y mae'n defnyddio arian i ddiwallu anghenion unigol disgyblion, yn cynnwys anghenion o ran cymorth personol, cyfarpar arbenigol neu gostau gweinyddol ychwanegol.

## Astudiaeth Achos 5 - Cyngor Caerdydd

### Defnyddio gwybodaeth a feincnodwyd i gymharu gwariant ar ysgolion arbennig â gwariant o'r fath mewn awdurdodau tebyg ac i lywio adolygiad o'r dyraniad cyllidebol

Yn 2008, adolygodd Cyngor Caerdydd y trefniadau ariannu ar gyfer ei saith ysgol arbennig drwy gynnal ymarfer meincnodi ariannol, a thrwy gymharu ei ddarpariaeth a'i anghenion ei hun â'r sefyllfa yn 1996. Cafodd y Cyngor, o'i gymharu â chynghorau ac ysgolion arbennig yn Lloegr sy'n ystadegol debyg, ei fod yn lleoli cyfran debyg o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, bod ganddo drefniadau bandio tebyg ond ar y cyfan ei fod yn dirprwyo canran is o'r gyllideb gyfan i'w ysgolion arbennig. Mae'r Cyngor yn cynnal yr un nifer o leoedd mewn ysgolion arbennig ag y gwnaeth yn 1996, ond llenwir y lleoedd hyn gan ddisgyblion sydd â lefelau anghenion sy'n fwyfwy difrifol a chymhleth, yn cynnwys cyfran uwch o ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Yn gyfatebol, mae ysgolion prif ffrwd y Cyngor yn darparu ar gyfer disgyblion a fyddai, fwy na thebyg, wedi cael addysg mewn ysgol arbennig yn 1996.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, penderfynodd y Cyngor i gynyddu cyfanswm cyllideb yr ysgolion arbennig £500,000 dros dair blynedd. Caiff yr arian ychwanegol ei ddosbarthu i ysgolion drwy gynyddu gwerth unedau pob un o'r wyth band yn y fformiwla ariannu. O ganlyniad, mae'n debyg y bydd cyllidebau dirprwyedig ysgolion arbennig yn fwy cydnaws ag anghenion presennol y disgyblion.

**Astudiaeth Achos 6 - Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Defnyddio gwybodaeth a feincnodwyd i gymharu gwariant ar ysgolion arbennig â gwariant o'r fath mewn awdurdodau tebyg ac i lywio adolygiad o'r dyraniad cyllidebol**

Rai blynyddoedd yn ôl, roedd corff llywodraethu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields o'r farn nad oedd cyllideb yr ysgol yn ddigonol i ddiwallu anghenion disgyblion, a bod diffyg eglurder i'r broses pennu cyllideb. Mewn ymateb, comisiynwyd ymgynghorwyr annibynnol gan Gyngor Caerffili i gymharu cyfanswm ariannu'r ysgol yn 2008-09 â'r arian a ddyrannwyd i naw o ysgolion arbennig tebyg mewn cynghorau eraill. Mae saith o'r ysgolion hyn yng Nghymru, a dwy yn Lloegr; oll yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Defnyddiodd yr ymgynghorwyr y gost gyfartalog fesul disgybl fel y gwerth craidd i'w ddefnyddio i gymharu ysgolion yn yr ymarfer meincnodi hwn. Cyfrifwyd y gost gyfartalog fesul disgybl drwy ychwanegu:

- **a** cyfanswm y gyllideb ddirprwyedig;
- **b** unrhyw arian ychwanegol a ddyrannwyd gan y cyngor i'w ddefnyddio yn ôl disgresiwn y corff llywodraethu; ac
- **c** unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer anghenion disgyblion unigol.

Yna rhannwyd y cyfanswm hwn â nifer y disgyblion a oedd ar y gofrestr ar y pryd. Nid oedd arian sy'n gysylltiedig â grantiau wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad.

Nododd yr ymgynghorwyr fod y lefel ariannu gyffredinol ar gyfer yr ysgol yn cymharu'n dda iawn â'r ysgolion eraill yng Nghymru a astudiwyd, a dim ond un o'r ysgolion yn Lloegr a oedd yn rhagori arni. Hefyd gwnaed argymhellion i helpu'r Cyngor i wella eglurder ac ymatebolrwydd y broses o bennu'r gyllideb. Yn enwedig, roeddent yn gadarn o blaid y gwaith i ddatblygu'r matrics asesu disgyblion.

Gan weithio'n agos â'r ysgol, gweithredodd y Cyngor yn gyflym ar argymhellion yr ymgynghorwyr drwy newid y fformiwla ar gyfer pennu cyllideb yr ysgol o 2009-10 ymlaen. Mae'r llywodraethwyr bellach yn hyderus bod y gyllideb ddirprwyedig yn deg ac yn ddigonol a bod y system newydd ar gyfer pennu cyfanswm yr arian yn briodol, yn dryloyw ac yn gallu ymateb i newidiadau o ran anghenion disgyblion dros amser. Yn gyfatebol, mae gan y Cyngor well sicrwydd bod y gyllideb gyffredinol wedi'i phennu ar y lefel cywir a'i bod yn cyflawni gwerth am arian.

## Mae'r trefniadau ar gyfer dyrannu arian nas dirprwyir i ysgolion arbennig yn anghyson a cheir diffyg tryloywder mewn rhai achosion

**2.27** Mae'r trefniadau ar gyfer dyrannu cyllid nas dirprwyir i ysgolion arbennig, er enghraifft o grantiau a chyllidebau canolog, yn amrywio ac nid oes gan ysgolion ddealltwriaeth glir ohonynt bob amser.

**2.28** Yn ein hastudiaeth gynharach[19], gwelwyd nad oedd y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer AAA, fel y'i nodwyd drwy ffurflenni Cyfrif Refeniw a thrwy ddatganiadau Adran 52, yn darparu sail ddigonol na dibynadwy i gymharu cynghorau. Bu gwelliannau o ran y gofynion adrodd cyllidebol, ond mae'r sefyllfa hon yn parhau o hyd, yn enwedig o ran cyfran yr arian nas dirprwyir a ddosrannwyd i ysgolion arbennig. O ganlyniad, nid yw costau cyhoeddedig lleoedd mewn ysgolion arbennig, fesul disgybl, bob amser yn adlewyrchu costau gwirioneddol y ddarpariaeth yn llawn, ac maent yn anodd eu cymharu rhwng ysgolion a rhwng cynghorau.

**2.29** Y rhesymau mwyaf cyffredin dros ddiffyg cywirdeb yw y gallai'r wybodaeth a ddarperir i Lywodraeth y Cynulliad:

- **a** gynnwys cyfran o gostau'r gwasanaethau canolog, megis y gwasanaeth cerddoriaeth neu gyfleusterau'r ganolfan chwaraeon, sydd lawer yn uwch na lefel wirioneddol y gwasanaeth a ddarperir i ysgolion arbennig;
- **b** chynnwys costau gwasanaethau cymorth AAA a ddarperir mewn ysgolion prif ffrwd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion[20], ond nid mewn ysgolion arbennig; a

19 Arfer Da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig Swyddfa Archwilio Cymru, 2007

20 Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ganolfannau ar gyfer plant sydd, am resymau amrywiol, yn methu mynychu ysgol prif ffrwd neu ysgol arbennig am gyfnod dros dro.

c hepgor cost lawn y staff ychwanegol a ddarperir o gyllidebau canolog.

2.30 O fewn cyllidebau dirprwyedig ysgolion, mae cynghorau'n cynnwys cyfran o incwm grant penodol megis y Gronfa Ysgolion Gwell. Mae swm y grant o'r Gronfa Ysgolion Gwell, fesul athro, a drosglwyddir i ysgolion arbennig yn amrywio rhwng cynghorau, ac weithiau'n amrywio rhwng ysgolion yn yr un awdurdod. Ar y cyfan mae ysgolion yn defnyddio'u dyraniad yn unol ag amodau'r grant i rannol ariannu anghenion hyfforddiant athrawon a chynorthwywyr addysgu, ond nid yw penaethiaid na llywodraethwyr yn glir o ran sut y pennir cyfran eu hysgol nhw o'r grant na pham y caiff ei ddarparu'n anghyfartal.

2.31 I'r gwrthwyneb, mae gan gynghorau a'u hysgolion arbennig drefniadau clir ac effeithiol iawn ar gyfer defnyddio arian grant penodol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y rhaglen Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig. Noda Estyn[21] y defnyddiwyd cam cyntaf y rhaglen hon yn effeithiol iawn i sicrhau bod ysgolion prif ffrwd yn gallu defnyddio arbenigedd ac adnoddau ysgolion arbennig. Mae ysgolion arbennig a chynghorau yn parhau i wneud defnydd effeithiol o'r arian hwn drwy helpu i feithrin capasiti ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag amryw o anghenion addysgol arbennig.

2.32 Ar y cyfan mae gan gynghorau sy'n darparu cymorth staffio ychwanegol i ddisgyblion ysgolion arbennig o gyllideb ganolog drefniadau clir ar gyfer gwneud hynny. Fel arfer mae trefniadau o'r fath yn cynnwys cais i banel dyrannu adnoddau AAA y cyngor. Fodd bynnag, anaml y bydd cynghorau yn cynnwys costau llawn y ddarpariaeth ychwanegol hon yn eu gwariant arfaethedig ar ysgolion arbennig, fel arfer oherwydd nad ydynt yn gallu rhagweld anghenion disgyblion yn ddigon cywir. O ganlyniad, mae eu datganiadau cyllideb yn tanbrisio'r gwariant tebygol ar ysgolion arbennig. Felly mae amcangyfrif rhy isel o'r costau tebygol yn ystod y flwyddyn yn cyfrannu at y gorwariant ar ddarpariaeth AAA sy'n gyffredin mewn llawer o gynghorau.

## Bu cynghorau yn araf i gydweithio i wella gwerth am arian darpariaeth fewnol awdurdod

2.33 Ar y cyfan, mae'r patrwm presennol o ysgolion arbennig a gynhelir ledled Cymru yn deillio o'r cyfnod cyn yr ad-drefnwyd llywodraeth leol yn 1996. O ganlyniad ceir cryn dipyn o amrywiaeth rhwng cynghorau o ran nifer yr ysgolion arbennig a'r unedau sy'n cael adnoddau a gynhelir ganddynt, ac o ran y math o anghenion y maent yn darparu ar eu cyfer.

2.34 Nid oes gan un cyngor unrhyw ysgolion arbennig. Mae naw cyngor yn cynnal un ysgol arbennig ar gyfer bechgyn a merched o bob oedran ag anawsterau dysgu generig, ond nid oes unrhyw ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. I'r gwrthwyneb, mae gan un cyngor ysgol arbennig ar gyfer bechgyn oedran uwchradd sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, ond dim ysgol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu generig.

2.35 Mae'r ddarpariaeth o ysgolion arbennig preswyl hefyd yn anghyson ledled Cymru. Ceir 13 o ysgolion arbennig â chyfleusterau preswyl, ar draws 11 o gynghorau. Mae dwy o'r ysgolion hyn ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, pedair ar

21 Effaith cyllid 'datgloi potensial' ar hyrwyddo'r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau â ffocws cymunedol. Estyn, Ebrill 2009.

gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol ac mae'r saith ysgol arall ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu generig.

**2.36** O ganlyniad i ddosbarthiad anghyson y ddarpariaeth, i ryw raddau mae pob cyngor yn canolbwyntio ar allu caffael darpariaeth y tu allan i'r sir, naill ai mewn ysgolion a gynhelir gan gynghorau eraill neu yn y sector annibynnol.  Mae'r lleoliadau hyn yn angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â datganiadau disgyblion unigol. Yn aml penderfynir arnynt gan ddewis rhieni ac weithiau fe'u llywir gan Dribiwnlys AAA Cymru[22].

**2.37** Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau lleoedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir mewn cynghorau cyfagos yn gweithio'n dda, er eu bod yn cyflwyno haen o fiwrocratiaeth nad yw'n bodoli i ddisgyblion heb AAA sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'r awdurdodau lle maent yn byw. Mae gan gynghorau weithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â cheisiadau gan gynghorau eraill ac ar gyfer trefnu a chodi ffïoedd ar gyfer lleoedd yn eu hysgolion; mae swyddogion yn cydweithio'n agos i drefnu'r lleoliadau hyn. Fodd bynnag, ceir hefyd enghreifftiau o gyfathrebu gwael rhwng cynghorau o ran meini prawf derbyn, argaeledd lleoedd a'r ffïoedd i'w codi.

**2.38** I ryw raddau mae pob cyngor yn dibynnu ar leoliadau mewn ysgolion arbennig annibynnol, sy'n dangos nad oes digon o gapasiti mewn ysgolion arbennig a gynhelir. Mae gan ddisgyblion a leolir yn y sector annibynnol anghenion cymhleth iawn, sy'n aml yn deillio o anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, ac mae angen darpariaeth breswyl arnynt.

**2.39** Mae costau lleoliadau y tu allan i'r sir, p'un a ydynt yn y sector a gynhelir neu'r sector annibynnol, fel arfer yn uwch na chostau darpariaeth o fewn y sir. Mae'r ffactorau sy'n ychwanegu at y gost yn cynnwys costau uwch i gludo disgyblion rhwng y cartref a'r ysgol, y taliadau 'gorbenion' ychwanegol a godir gan gynghorau drwy eu fformiwla adennill, ac, yn enwedig, gost uchel darpariaeth ysgolion annibynnol.

**2.40** Er bod cynghorau'n ceisio trefnu lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n agos i'r cartref, nid yw hyn bob amser yn bosibl mewn realiti. O ganlyniad, mae'n anochel bod costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol lawer yn uwch na'r gost ar gyfer disgyblion sy'n teithio o fewn yr awdurdod.

**2.41** Ceir cryn amrywiad rhwng cynghorau o ran y dull a ddefnyddir i gyfrifo costau adennill ar gyfer y lleoedd yn eu hysgolion arbennig a gynhelir.  Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn cyfrifo'r ffïoedd ar gyfer lleoedd yn eu hysgolion arbennig drwy gymryd cost uned y lle, yn cynnwys unrhyw gymorth ychwanegol, ac ychwanegu swm, fel canran o gost yr uned, i dalu costau canolog y cyngor ar gyfer gwaith gweinyddol a chymorth sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae'r costau ychwanegol hyn yn amrywio rhwng cynghorau. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn ychwanegu rhwng 5 y cant a 15 y cant o gost yr uned wrth adennill incwm o gynghorau eraill, a dim ond lleiafrif bach sy'n adennill am gost yr uned yn unig. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod dau gyngor sy'n ychwanegu dros 20 y cant i gost yr uned, gan felly gynyddu cost gymharol lleoedd yn eu hysgolion arbennig i gynghorau eraill.

22 Sefydlwyd Tribiwnlys AAA Cymru yn 2003 i ystyried a phenderfynu ar apeliadau gan rieni yn erbyn penderfyniadau AAA a wnaed gan gynghorau. Mae hefyd yn ymchwilio i honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn cyrff cyfrifol.

**2.42** Mewn astudiaeth flaenorol[23], nodwyd gennym mai cost darpariaeth y tu allan i'r sir oedd un o'r prif ffactorau sy'n achosi gorwariant ar gyllidebau AAA cynghorau. Ar yr un pryd, golygodd diffyg argaeledd data canlyniadau ar gyfer disgyblion ag AAA nad oedd cynghorau yn gallu llunio barn o ran gwerth am arian mathau gwahanol o ddarpariaeth. Prin fu'r cynnydd a wnaed i ddatrys y ddau fater cysylltiedig hyn.

**2.43** Mae rhai cynghorau wedi cymryd camau effeithiol i gynyddu eu capasiti eu hunain i ddarparu ar gyfer anghenion arbennig disgyblion, gan felly leihau eu dibyniaeth ar ddarpariaeth y tu allan i'r sir (Astudiaethau Achos 7 ac 8). O ganlyniad, mae'r cynghorau hyn wedi sicrhau gwell rheolaeth dros eu cyllidebau AAA.

**2.44** Fodd bynnag, er bod cynghorau unigol yn dechrau cynllunio darpariaeth ychwanegol, prin yw'r dystiolaeth o ddull cydgysylltiedig o gynllunio'r ddarpariaeth ar draws rhanbarthau. Ar y cyfan, bu cynghorau'n araf i ymateb i'r argymhelliad yn ein hadroddiad blaenorol sef: 'Cydweithio, o fewn cynghorau ac ar draws cynghorau, pan fo'n angenrheidiol, i gaffael llefydd mewn ysgolion y tu allan i'w ffiniau yn effeithiol[24].'

## Astudiaeth Achos 7 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Cymryd camau effeithiol i gynyddu capasiti ysgolion arbennig o fewn y sir a lleihau'r angen am ddarpariaeth ddrutach y tu allan i'r sir**

Fel rhan o'i strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella ysgolion, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cynyddu ei gapasiti'n sylweddol i ddiwallu anghenion arbennig disgyblion o fewn ei ysgolion ei hun a gynhelir dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r patrwm cyfnewidiol o angen am ddarpariaeth ysgolion arbennig drwy greu mwy o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r gwelliannau'n cynnwys Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn Ysgol Gynradd y Gnoll ar gyfer 14 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. O fewn y sector uwchradd mae'r Ganolfan Cymorth Dysgu yn Ysgol Uwchradd Sandfields, a oedd wedi darparu ar gyfer 12 o ddisgyblion â nam ar eu clyw, bellach wedi'i hailddynodi i gefnogi disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Yn ogystal agorwyd adnodd newydd yn Ysgol Gyfun Cwmtawe ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. I ddechrau roedd yr adnodd hwn yn darparu lleoedd ar gyfer saith o ddisgyblion, ond ym mis Medi 2010 bydd ganddo gapasiti ar gyfer 14 o blant.

Hefyd agorwyd darpariaeth newydd yn Ysgol Gymunedol Felindre ar gyfer 14 o ddisgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd wedi agor Canolfan Cymorth Dysgu gynradd ar gyfer 8 o ddisgyblion yn Ysgol Arbennig Hendre, sy'n darparu ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae Ysgol Arbennig Hendre hefyd wedi gweld cynnydd o 90 i 100 yn nifer y lleoedd arfaethedig. Ceir naw o leoedd ychwanegol yn Ysgol Arbennig Maes-y-Coed ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu difrifol ac mae cynnydd pellach dan ystyriaeth. Mae'r datblygiadau hyn a gynlluniwyd yn ofalus wedi galluogi'r Cyngor i leihau'r angen am leoliadau drud y tu allan i'r sir o 40 yn 2005-06 i 28 yn 2009-10.

23 Arfer Da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig: Swyddfa Archwilio Cymru, Gorffennaf 2007.

24 Argymhelliad A6, Arfer Da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig, Swyddfa Archwilio Cymru, Gorffennaf 2007.

### Astudiaeth Achos 8 - Cyngor Caerdydd

**Cymryd camau effeithiol i gynyddu capasiti ysgolion arbennig o fewn y sir a lleihau'r angen am ddarpariaeth ddrutach y tu allan i'r sir**

Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu cynyddu ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig drwy sefydlu canolfan arbenigol yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf a fydd yn y pendraw yn darparu ar gyfer rhwng 35 a 42 o ddisgyblion rhwng 11 a 19 oed.

Wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth ofalus iawn i'r canlynol:

- **a** y nifer gynyddol o ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig;
- **b** yr angen i roi dewis a hyblygrwydd i ddisgyblion wrth gael addysg brif ffrwd ac addysg arbennig;
- **c** capasiti ac addasrwydd y ddarpariaeth yn ei ysgolion arbennig ei hun; ac
- **ch** argaeledd a chost darpariaeth arbenigol mewn ysgolion arbennig a gynhelir mewn cynghorau cyfagos ac yn y sector annibynnol.

Mae'r Cyngor wedi sicrhau arian cyfalaf gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 a 2011-12 i dalu 75 y cant o gostau'r prosiect. Sicrheir gweddill yr arian drwy fenthyca darbodus. Mae'r Cyngor yn bwriadu ariannu'r benthyciad drwy leihau gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir a fyddai fel arall wedi bod yn anochel.

Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu gwella'r ddarpariaeth a chynyddu'r capasiti yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Bydd yr ysgol yn symud i adeiladau pwrpasol yn 2010. Ochr yn ochr â'r adeiladau ysgol newydd bydd darpariaeth gofal seibiant ag wyth gwely ar gyfer pobl ifanc. Gobaith y Cyngor yw y bydd hyn yn lleihau'r angen i leoli disgyblion mewn ysgolion arbennig preswyl y tu allan i'r sir.

## Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn fodlon ar argaeledd gwasanaethau cymorth cynghorau, ond mae llawer yn nodi anhawster o ran sicrhau lefelau digonol o gymorth gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion meddygol disgyblion

**2.45** Mae cynghorau'n darparu ystod o wasanaethau cymorth i'w hysgolion arbennig, y mae rhai gwasanaethau'n generig ac eraill yn fwy arbenigol. Ar y cyfan mae ysgolion arbennig yn fodlon ar argaeledd a gwerth am arian gwasanaethau generig, megis cyllid, cefnogaeth gan lywodraethwyr a chynnal a chadw'r adeiladau a'r tiroedd. Fel arfer mae'r gwasanaethau hyn yn destun cytundeb lefel gwasanaeth ac ar y cyfan maent yn gweithio mor dda mewn ysgolion arbennig ag y maent mewn ysgolion prif ffrwd.

**2.46** Mae ysgolion arbennig yn gwerthfawrogi cyngor a chefnogaeth gyffredinol eu swyddogion gwella ysgolion. Fodd bynnag, anaml iawn y mae'r gefnogaeth a dderbynnir ganddynt o ran materion megis y cwricwlwm, asesu, a gwerthuso canlyniadau yn seiliedig ar ddealltwriaeth arbenigol o anghenion disgyblion ag AAA.

**2.47** Mae ysgolion arbennig hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a dderbynnir gan seicolegwyr addysgol, ond maent yn nodi amrywiadau sylweddol o ran yr amser a neilltuir a'r math o gefnogaeth a dderbynnir. Mewn un cyngor, mae'r seicolegwr addysgol yn ymweld â'r ysgol arbennig bob wythnos ac yn cynnig gwasanaeth ymgynghori a hyfforddiant ar gyfer staff. Mewn ysgol debyg

mewn man arall, mae amser y seicolegwr addysgol yn llawer mwy prin, a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer gwaith achos ac i adolygu disgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi ar gyfer addysg uwchradd.

2.48 Mae ysgolion arbennig yn cael lefelau gwahanol iawn o gymorth gwasanaethau iechyd mewn rhannau gwahanol o Gymru. Er y ceir enghreifftiau o arfer da yng ngogledd Cymru, mae ysgolion arbennig yn y rhan fwyaf o gynghorau o'r farn bod yr amser a ddyrennir ar gyfer nyrs ysgol, therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn llai na'r hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion eu disgyblion.

2.49 Ar y cyfan gall ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog gael gafael ar nyrs ysgol am gymorth, er nad yw hynny'n wir am bob ysgol. Mae ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn ei chael yn anodd cael cymorth eu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

2.50 Mae gan gynghorau gwahanol feini prawf a threfniadau ariannu gwahanol ar gyfer darparu cyfarpar arbenigol, megis cymhorthion cyfathrebu a seddi, ar gyfer disgyblion anabl. Mewn un cyngor, mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cynnwys arian ar gyfer yr holl gyfarpar. Mae nifer o gynghorau eraill yn talu am gyfarpar o gyllideb ganolog, yn amodol ar gytundeb drwy banel cymedroli, a gall fod yn ofynnol i'r ysgol dalu cyfraniad, fel arfer £100-£150. Mewn mannau eraill, gall y Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu'r cyfarpar o gronfa ganolog, neu gyfrannu at gostau.

2.51 Prif effaith y gwahaniaethau hyn yw'r amser a gymerir i gael y cyfarpar. Mae ysgolion sydd â rheolaeth uniongyrchol dros gyllid yn gallu darparu'r eitemau angenrheidiol i ddisgyblion llawer yn gyflymach na'r rheini sy'n gorfod aros am gytundeb ar gyllid neu aros i gyfarpar gael ei ddarparu.

2.52 Ar y cyfan, mae ysgolion arbennig yn ei chael yn anodd sicrhau cymorth gwasanaethau iechyd ar gyfer disgyblion a leolir y tu allan i'r sir, yn enwedig os yw'r disgyblion hynny'n byw mewn ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Lleol gwahanol. Mae hon yn broblem arbennig ar gyfer ysgolion arbennig preswyl, y mae llawer o'r disgyblion yn byw yn bell i ffwrdd o'r ysgol.

2.53 Lle nad yw ysgolion a chynghorau'n gallu sicrhau'r ddarpariaeth angenrheidiol o ran gwasanaethau iechyd, maent wedi mabwysiadu amryw o strategaethau amgen i ddiwallu anghenion disgyblion. Mewn nifer fach o ysgolion arbennig, bu'r penderfyniad i gyflogi nyrs ysgol, therapydd lleferydd ac iaith a/neu weithiwr cymdeithasol yn uniongyrchol o fudd mawr i'r ysgolion a'r disgyblion, a gwerthfawrogir hynny gan rieni. Mewn ysgolion eraill, mae'r gwasanaeth iechyd wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff cymorth i'w galluogi i ofalu am ddisgyblion penodol. Mewn ysgolion eraill, mae'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i athrawon a chynorthwywyr addysgu.

2.54 Mewn nifer fach o achosion, mae'r diffyg mynediad i gymorth gwasanaethau iechyd er mwyn diwallu anghenion datganiadau disgyblion wedi bod yn gostus i gynghorau. Nododd un cyngor fod Tribiwnlys AAA Cymru wedi'i gyfarwyddo i leoli plentyn mewn ysgol arbennig annibynnol er mwyn cael gwasanaethau ffisiotherapi a therapi galwedigaethol.

2.55 Nid oes gan gynghorau na Byrddau Iechyd Lleol gytundebau lefel gwasanaeth effeithiol i danategu'r lefel na'r math priodol o gymorth gwasanaethau iechyd mewn ysgolion arbennig. Lle y ceir cytundebau lefel gwasanaeth, maent yn hŷn na threfniadau presennol y Bwrdd Iechyd Lleol ac nid ydynt bob amser yn cynnwys cymorth ar gyfer ysgolion arbennig. Mae swyddogion y cyngor yn ymwybodol o'r angen i adolygu'r trefniadau hyn, ond yn nodi bod y broses ddiweddar o ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd wedi arafu eu cynnydd o ran cydweithio.

### Astudiaeth Achos 9 - Cydweithio yng Ngogledd Cymru

**Cydweithio effeithiol rhwng cynghorau a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau cymorth gwasanaethau iechyd da ar gyfer disgyblion ag AAA**

Yng ngogledd Cymru, mae'r cydberthnasau gwaith adeiladol rhwng swyddogion y cyngor a rheolwyr y Bwrdd Iechyd Lleol wedi helpu i sicrhau cymorth gwasanaethau iechyd da ar gyfer disgyblion ag AAA ac anableddau, yn cynnwys y rheini mewn ysgolion arbennig a gynhelir.

Mae disgyblion yn Ysgol y Bont, Ynys Môn, yn cael budd o ddarpariaeth sy'n cynnwys un nyrs ysgol llawn amser a thri chynorthwyydd nyrsio, a ariennir yn llawn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae gan ddisgyblion fynediad da i therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol, yn unol â'u hanghenion. Cynhelir clinigau pediatrig a deintyddol yn yr ysgol, sydd o fudd i blant a'u teuluoedd, a hefyd i blant eraill yn yr ardal. Lle bod angen cyfarpar arbenigol ar ddisgyblion, megis cadeiriau a chymhorthion cyfathrebu, darperir y rhain gan y Bwrdd Iechyd Lleol fel arfer.

Ceir cydberthnasau gwaith da rhwng gwasanaeth cynhwysiant Cyngor Sir y Fflint, yn cynnwys y swyddogion cyllid, a'r swyddogion cyfatebol yn y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r rhain wedi arwain at gytundebau ariannu ar y cyd llwyddiannus ar gyfer gwasanaethau, cyfarpar a chymorth ychwanegol yn y ddwy ysgol arbennig. Mae disgyblion yn Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd yn cael budd o lefel dda iawn o wasanaeth gan y nyrs ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn destun cytundebau ariannu ar y cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cyfrannu at gymorth 1:1 ar gyfer plant penodol sydd ag anghenion iechyd/meddygol a nodwyd yn ysgolion arbennig Sir y Fflint, ac mae'n darparu hyfforddiant sydd o gymorth i staff addysg.

Yng Nghyngor Sir Ddinbych ceir trefniadau clir a hirsefydledig ar gyfer gwneud penderfyniadau i leoli disgyblion y tu allan i'r sir, a chytundeb y caiff costau lleoliadau o'r fath eu hariannu ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

# Atodiad 1 - Nodweddion mathau o anghenion addysgol arbennig

## 1 Gwybyddiaeth A Dysgu

### 1.1 Anawsterau Dysgu Penodol

Mae 'Anawsterau dysgu penodol' yn derm cyffredinol sy'n nodi bod disgyblion yn dangos anawsterau o ran agweddau penodol ar eu dysgu. Gall fod gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol anhawster penodol o ran dysgu i ddarllen, ysgrifennu, sillafu neu drin rhifau fel bod eu perfformiad yn y meysydd hynny'n is na'u perfformiad mewn meysydd eraill. Hefyd gall fod gan ddisgyblion broblemau gyda:

**a** sgiliau echddygol manwl neu sgiliau echddygol bras;

**b** tasgau sy'n cynnwys galluoedd penodol megis dilyniant, trefnu neu alluoedd ffonolegol neu'r cof byr dymor;

**c** datblygu iaith;

**ch** llunio cysyniadau, yn enwedig pan fo'r wybodaeth yn galw am brofiadau synhwyraidd uniongyrchol; a

**d** rhwystredigaeth a/neu diffyg hunan-barch, sy'n amlygu ei hun, mewn rhai achosion, fel anawsterau ymddygiadol.

Gall anawsterau dysgu penodol effeithio ar ddisgyblion ar draws yr ystod gallu, a gall difrifoldeb eu hanawsterau dysgu amrywio'n fawr.

Mae anawsterau dysgu penodol yn cynnwys:

#### Dyslecsia

Gall disgyblion â dyslecsia ddysgu'n dda mewn rhai meysydd o'r cwricwlwm ond cael anhawster sylweddol a pharhaus o ran caffael cywirdeb neu rhygler o ran dysgu i ddarllen, ysgrifennu a sillafu. Gall fod gan ddisgyblion ddealltwriaeth wael wrth ddarllen, llawysgrifen wael a sgiliau atalnodi gwael. Gallant hefyd gael anawsterau o ran canolbwyntio, trefnu a chofio dilyniant o eiriau. Gallant camynganu geiriau cyffredin, neu wrth-droi llythrennau a seiniau mewn geiriau.

#### Dyscalcwlia

Mae disgyblion gyda dyscalcwlia yn cael anawsterau i gaffael sgiliau mathemategol. Gall disgyblion gael anawsterau i ddeall cysyniadau rhif syml, diffyg amgyffrediad sythweledol o rifau ac anawsterau o ran dysgu ffeithiau a gweithdrefnau rhifau.

#### Dyspracsia

Effeithir ar ddisgyblion â dyspracsia gan nam neu anaeddfedrwydd o ran symudiad, gan ymddangos yn lletchwith yn aml. Cânt anawsterau o ran dysgu sgiliau echddygol manwl a sgiliau echddygol bras, ac anawsterau o ran cadw a chyffredinoli. Gall fod ganddynt gydbwysedd a chydsymudiad gwael, a diffyg ymwybyddiaeth o safle'r corff. Gall eu hiaith fod yn hwyr yn datblygu, a gall eu hynganiad fod yn anaeddfed.

## 1.2 Anawsterau Dysgu Cymedrol

Bydd cyrhaeddiad plant ag anawsterau dysgu cymedrol yn sylweddol is na'r lefelau disgwyliedig ar gyfer disgyblion o oedran tebyg ym mhob rhan o'r cwricwlwm, neu'r rhan fwyaf o rannau'r cwricwlwm, er gwaethaf ymyriadau priodol. Cânt cryn dipyn yn fwy o anawsterau na'u cyfoedion i gaffael sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, i ddeall cysyniadau, i ymdrin â syniadau haniaethol a chyffredinoli ar sail profiad. Gallant hefyd gael problemau o ran:

**a** datblygu sgiliau lleferydd ac iaith;

**b** diffyg hunan-barch;

**c** diffyg canolbwyntio a thalu sylw; a

**ch** sgiliau cymdeithasol.

## 1.3 Anawsterau Dysgu Difrifol

Mae gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol namau deallusol neu wybyddol sylweddol. Caiff hyn effaith fawr ar eu gallu i gymryd rhan yng ngwricwlwm yr ysgol heb gefnogaeth. Gallant hefyd gael anawsterau cysylltiedig o ran symudedd a chydsymudiad, cyfathrebu a chanfyddiad a chaffael sgiliau hunan-gymorth.

Bydd disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol angen cymorth ym mhob maes o'r cwricwlwm. Mae'n debygol y byddant angen dysgu sgiliau hunan-gymorth, annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol. Gall rhai disgyblion ddefnyddio arwyddion a symbolau, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu cynnal sgyrsiau syml a chaffael rhai sgiliau llythrennedd. Gall eu cyrhaeddiad fod yn is na lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol am gryn dipyn o'u gyrfaoedd ysgol.

## 1.4 Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog

Mae gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog nam/anawsterau dysgu gwyboddol dwys, sy'n arwain at oedi sylweddol o ran cyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Yn ogystal, byddant yn arddangos un neu fwy o'r canlynol:

**a** namau echddygol sylweddol;

**b** namau synhwyraidd sylweddol; a/neu

**c** anghenion gofal iechyd cymhleth/dibynniaeth ar dechnoleg.

Mae cydberthynas yr anableddau hyn yn cynyddu cymhlethdod yr angen, ac yn ei dro yn effeithio ar bob maes dysgu.

Mae angen cwricwlwm penodol ar ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog i'w helpu i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, sgiliau echddygol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu drwy gydol eu gyrfaoedd ysgol, ac ymlaen i'w bywyd fel oedolion. Mae rhai disgyblion yn cyfathrebu drwy ystumiau, cyfeirio'r llygaid neu symbolau, ac eraill yn cyfathrebu drwy ddefnyddio iaith syml iawn. Mae angen lefel uchel iawn o gymorth oedolion ar y disgyblion hyn, ar gyfer eu hanghenion dysgu a hefyd ar gyfer gofal personol.

## 2 Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol A Chymdeithasol

Mae anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn effeithio ar ddigyblion ar draws yr ystod lawn o allu, a chontinwwm o ddifrifoldeb. Mae eu anghenion a'u hymddygiad emosiynol yn rhwystr i'w dysgu ac yn parhau er gwaethaf gweithredu polisi ymddygiad ysgol effeithiol, cymorth bugeiliol a'r cwricwlwm personol/cymdeithasol.

Gall disgyblion fod:

**a** yn encilgar neu ar ben eu hun;

**b** yn aflonyddgar;

**c** yn oractif gyda diffyg canolbwyntio;

**ch** yn anaeddfed o ran sgiliau cymdeithasol;

**d** yn methu â ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol gyda chyfoedion a/neu oedolion; a/neu

**dd** yn dangos ymddygiadau heriol.

## 3 Anawsterau Cyfathrebu A Rhyngweithio

### 3.1 Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mae gan ddisgyblion ar draws yr ystod gallu anghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Cânt anawsterau i ddeall a/neu wneud i eraill ddeall gwybodaeth a gyfleuir drwy iaith lafar.

Gall anawsterau lleferydd ac iaith amlygu eu hunain yn y ffyrdd canlynol:

**a** problemau o ran cynhyrchu lleferydd;

**b** anawsterau o ran dod o hyd i eiriau a'u cysylltu mewn iaith ystyriol a mynegiannol;

**c** problemau o ran cyfathrebu drwy leferydd a ffurfiau iaith eraill;

**ch** anawsterau neu oedi o ran deall neu ymateb i awgrymiadau llafar pobl eraill;

**d** anawsterau o ran caffael a mynegi meddyliau a syniadau;

**dd** anawsterau o ran deall a defnyddio iaith gymdeithasol briodol; a

**e** rhwystredigaethau a phryderon sy'n deillio o fethu â chyfathrebu, gan arwain o bosibl at anawsterau ymddygiadol ymddangosiadol a gwaethygu cydberthnasau cymdeithasol a chydberthnasau a chyfoedion.

### 3.2 Anhwylderau ar y Spectrwm Awtistig

Nodweddir anhwylderau ar y spectrwm awtistig gan dri nam o ran cydberthnasau cymdeithasol, cyfathrebu cymdeithasol a meddwl dychmygol, a gallant amlygu eu hunain yn y ffyrdd canlynol:

**a** anawsterau o ran cyweirio i sefyllfaoedd cymdeithasol ac ymateb i giwiau amgylcheddol arferol;

**b** tystiolaeth o agendâu personol sy'n dod i'r amlwg sy'n mynd yn fwyfwy anodd i oedolion ymdrin â hwy;

**c** tueddiad i ymgilio o sefyllfaoedd cymdeithasol a gofeddoldeb cynyddol a diffyg menter;

**ch** rhyngweithio cymdeithasol ataliol neu amhriodol yn ymestyn i ymddygiad myfïol iawn gyda diffyg ymwybyddiaeth o anghenion neu emosiynau pobl eraill;

**d** nam ar y defnydd o iaith, naill ai'n fynegiannol neu'n dderbyngar; gall hyn gynnwys goslef rhyfedd, dehongliadau llythrennol ac ymadroddion hynod a gall ymestyn i ffurfiau mynegiannol mwy rhyfedd a mynegiant

cyfyngedig, gan leihau'r potensial ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd; a

**dd** chyfyngiadau o ran gweithgareddau mynegiannol neu greadigol gyda chymheiriaid yn ymestyn i ddiddordebau obsesiynol neu weithgareddau ailadroddus.

Gall anhwylderau ar y sbectrwm awtistig effeithio ar ddisgyblion ar draws yr ystod gallu ac mae difrifoldeb eu namau yn amrywio'n eang. Mae gan rai disgyblion anawsterau neu anableddau dysgu eraill hefyd, sy'n ei gwneud yn anodd nodi'r cyflwr.

Ceir nifer o is-grwpiau o fewn y spectrwm awtistiaeth, yn cynnwys, er enghraifft, disgyblion sydd â'r cyflwr Asperger.

# 4 Anawsterau Synhwyraidd A Chorfforol

## 4.1 Nam ar y Clyw

Mae disgyblion sydd â nam ar eu clyw yn amrywio o'r rheini â nam ysgafn ar eu clyw i'r rheini sy'n hollol fyddar. Gall hyn effeithio ar ddisgyblion ar draws yr ystod gallu.

Mae'n bosibl i arbenigwyr asesu a mesur y nam ar glyw disgyblion, ac mewn llawer o achosion gwneir hyn cyn i'r plant gyrraedd yr oedran ysgol statudol. Fodd bynnag, nid yw lefel y nam ar y clyw yn unig yn pennu lefel yr anawsterau y mae disgyblion yn eu profi yn yr ysgol. Rhaid ei osod ochr yn ochr â dangosyddion eraill sy'n gysylltiedig yn fwy uniongyrchol i'r ystafell ddosbarth.

At ddibenion addysgol, ystyrir bod nam ar glyw disgybl os oes angen cymhorthion clyw arno/arni, addasiadau i'w h/amgylchedd a/neu strategaethau addysg penodol er mwyn gallu deall cysyniadau ac iaith y cwricwlwm.

## 4.2 Nam ar y golwg

Mae disgyblion sydd â nam ar y golwg yn amrywio o'r rheini sy'n rhannol ddall i'r rheini sy'n ddall. Gall hyn yn effeithio ar ddisgyblion ar draws yr holl ystod gallu.

Mae'n bosibl i arbenigwyr asesu a mesur y nam ar olwg disgyblion, ac mewn llawer o achosion gwneir hyn cyn i'r plant gyrraedd yr oedran ysgol statudol. Fodd bynnag, nid yw lefel y nam ar y golwg yn unig yn pennu lefel yr anawsterau y mae disgyblion yn eu profi yn yr ysgol. Rhaid ei osod ochr yn ochr â dangosyddion eraill sy'n gysylltiedig yn fwy uniongyrchol i'r ystafell ddosbarth.

At ddibenion addysgol, ystyrir bod nam ar olwg disgybl os oes angen addasiadau i'w h/amgylchedd a/neu strategaethau addysg wedi'u gwahaniaethu er mwyn gallu deall cysyniadau ac iaith y cwricwlwm.

## 4.3 Nam amlsynnwyr

Mae gan ddisgyblion â nam amlsynnwyr gyfuniad o nam ar eu golwg a nam ar eu clyw. Cyfeirir atynt weithiau fel byddar-ddall, ond gall fod ganddynt rywfaint o olwg a/neu glyw ar ôl. Mae gan lawer ohonynt anableddau ychwanegol ond mae eu hanghenion cymhleth yn golygu y gall fod yn anodd canfod eu galluoedd deallusol.

## 4.4 Anawsterau Corfforol a Meddygol

Ceir ystod eang o anawsterau corfforol a meddygol, rhai dros dro ac eraill yn barhaol. Gall hyn yn effeithio ar ddisgyblion ar draws yr holl ystod gallu.

Nid oes gan rai plant â phroblemau corfforol neu feddygol unrhyw broblemau o ran cael mynediad i'r cwricwlwm a dysgu'n effeithiol. Felly mewn achosion o'r fath nid yw diagnosis meddygol yn golygu bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig.

Ar y llaw arall, bydd rhai plant yn dechrau ysgol gydag anghenion corfforol a nodwyd neu ddiagnosis meddygol ac anawsterau addysgol y ceir dealltwriaeth dda ohonynt. Efallai eu bod wedi cael asesiad addysgol ac ymyriad addysgol cynnar, ac efallai bod ganddynt ddatganiad o angen addysgol arbennig hefyd. Mae angen i ysgolion fonitro'r anghenion addysgol yn ofalus iawn, ond byddant eisoes yn effro iawn i'r gofyniad hwn.

Ceir nifer o gyflyrrau meddygol sy'n gysylltiedig ag anabledd corfforol sy'n gallu effeithio ar symudedd disgybl. Mae'r cyflyrrau hyn yn cynnwys parlys yr ymennydd, spina bifida a nychdod cyhyrol. Gall disgyblion ag anableddau corfforol hefyd fod â namau synhwyraidd, problemau niwrolegol neu anawsterau dysgu.

Gall effaith anawsterau corfforol neu feddygol ar addysg plentyn amrywio o effaith ysgafn i ddifrifol, a gall ddod i'r amlwg yn y ffyrdd canlynol:

**a** tystiolaeth o anawsterau ym meysydd eraill anghenion addysgol arbennig;

**b** effaith yr anhawster corfforol neu feddygol ar hyder, hunan-barch neu sefydlogrwydd emosiynol y plentyn neu ei gydberthynas â chyfoedion;

**c** effaith yr anhawster corfforol neu feddygol ar berfformiad yn yr ystafell ddosbarth (er enghraifft, bod yn gysglyd, diffyg canolbwyntio, diffyg cymhelliant); ac

**ch** effaith anawsterau corfforol neu feddygol ar gyfranogiad yng ngweithgareddau'r cwricwlwm.

# Atodiad 2 - Methodoleg Swyddfa Archwilio Cymru

## Dechrau ar y prosiect

1 Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r prosiect, cynhaliwyd cyfarfod Dadansoddi Materion ym mis Rhagfyr 2009 gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth y Cynulliad, ysgolion arbennig a gynhelir a chynghorau. Arweiniodd hyn at hierarchaeth o gwestiynau a gynlluniwyd i ateb y cwestiwn allweddol:

'A yw ysgolion a chynghorau yn gwneud defnydd da o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion mewn ysgolion arbennig yng Nghymru?'

## Cam 1: Casglu a dadansoddi data

2 Ar y cam hwn ac yn dilyn hynny gwnaethom ddadansoddi:

- a data gan Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â maint, math a lleoliad ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru;
- b ffurflenni A52 a Chyfrif Refeniw a anfonwyd i Lywodraeth y Cynulliad gan gynghorau yn 2009, gan nodi gwybodaeth am y gwariant arfaethedig mewn ysgolion arbennig a gynhelir yn 2009-10;
- c gwybodaeth gan gynghorau ar y gwariant gwirioneddol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yn 2008-09; a
- ch chanlyniadau arolygiadau Estyn o ysgolion arbennig a gynhelir yn y cyfnod 2004-2010.

3 Gwnaethom ofyn i'r 21 o gynghorau sy'n cynnal un neu fwy o ysgolion arbennig ddarparu data ariannol manylach i ni drwy ddychwelyd holiadur ym mis Chwefror 2010. Derbyniwyd a dadansoddwyd ymatebion gan 19 o'r cynghorau hyn.

## Cam 2: Gwaith maes cynghorau ac ysgolion arbennig

4 Ar sail y dadansoddiad cychwynnol, nodwyd sampl gynrychioliadol o 17 o ysgolion arbennig dydd a phreswyl mewn 13 o gynghorau yng Nghymru, a dosbarthwyd yr ysgolion yn unol â'r math o anghenion a'r ddarpariaeth.

5 Ymwelwyd â 15 o ysgolion ac 13 o gynghorau i drafod cwestiynau'r astudiaeth ac ystyried meysydd penodol sa oedd yn codi o'r dadansoddiad cychwynnol. Cynhaliwyd trafodaethau â phenaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a swyddogion cynghorau.

6 Cyn ymweld â phob cyngor ac ysgol, cafodd y wybodaeth o'r ffurflenni a anfonwyd i Lywodraeth y Cynulliad a'r data o'r diweddariadau ystadegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad eu dwyn ynghyd er mwyn amlygu'r meysydd yr oeddem am eu trafod yn ystod yr ymweliad.

7 Ymwelwyd â'r cynghorau a'r ysgolion arbennig canlynol:

| Cynghorau | Ysgolion |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Heronsbridge |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields |
| Cyngor Caerdydd | Ysgol Arbennig The Hollies |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Ysgol Rhydygors |
| Cyngor Sir Ddinbych | Ysgol Plas Brondyffryn |
| Cyngor Sir y Fflint | Ysgol Pen Coch<br>Ysgol Maes Hyfryd |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Ysgol y Bont |
| Cyngor Sir Fynwy | Ysgol Arbennig Mounton House |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Hendre |
| Cyngor Sir Powys | Ysgol Neuadd Brynllywarch<br>Ysgol Cedewain |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Ysgol Tŷ Coch |
| Dinas a Sir Abertawe | Ysgol Crug Glas |
| Cyngor Bro Morgannwg | Ysgol Ashgrove |

## Casgliad yr astudiaeth

8 Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, cynhaliwyd cyfarfod Llunio Casgliadau ym mis Ebrill 2010 i drafod casgliadau'r astudiaeth. Daeth cynrychiolwyr o Lywodraeth y Cynulliad, cynghorau, ysgolion arbennig a gynhelir ac Estyn i'r cyfarfod.